

Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe 2019/20



Gweithio gyda'n gilydd i adeiladu dyfodol gwell



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Bae Abertawe
Swansea Bay University
Health Board



Cyngor **Abertawe**
Swansea Council



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales



Gwasanaeth Tân Ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

Cynnwys

Neges gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe	Tudalen 2
Ein gweledigaeth a'n hamcanion lles lleol	Tudalen 3
Y ffordd rydym yn gweithio - Llywodraethu	Tudalen 5
Lles lleol Abertawe	Tudalen 10
Cynnydd tuag at ein hamcanion lles lleol	Tudalen 13
- Blynyddoedd cynnar	Tudalen 13
- Byw'n dda, heneiddio'n dda	Tudalen 20
- Gweithio gyda Natur	Tudalen 28
- Cymunedau Cryf	Tudalen 36
Ein ffyrdd o weithio	Tudalen 41
Gweithio mewn partneriaeth ar ei orau yn ystod COVID-19	Tudalen 44
Ein camau nesaf	Tudalen 51
Sut gallwch gymryd rhan?	Tudalen 51

Neges gan BGC Abertawe

Mae 2 flynedd wedi mynd heibio ers i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe gyhoeddi ein Cynllun Lles Lleol cyntaf ym mis Mai 2018.

Nod yr adroddiad hwn yw amlinellu'r cynnydd a wnaed tuag at yr 'Abertawe a garem' ac ystyried sut rydym wedi rhoi'r egwyddorion datblygu cynaliadwy ar waith a sut y gallem weithio'n well i gyflawni lles yn y dyfodol.

Roedd ein blwyddyn gyntaf o weithredu'n canolbwyntio ar ymchwil i ddeall heriau a chyfleoedd Abertawe, gyda'r ail flwyddyn yn canolbwyntio ar gynllunio a blaenoriaethu meysydd lle gallem wneud y gwahaniaeth mwyaf drwy weithio ar y cyd. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar 2019/20 - ein hail flwyddyn o gynnydd a chyflawni.

Yn ogystal â'r canlyniadau cadarnhaol sydd wedi helpu i newid bywydau yn Abertawe, rydym hefyd wedi creu isadeiledd cyflawni a system lywodraethu ac rydym yn parhau i'w datblygu.

Er ein bod wedi cyflawni llawer yn ein 2 flynedd o gyflawni, nid yw BGC Abertawe yn hunanfodlon a bydd yn parhau i arloesi a chwilio am ffyrdd newydd o wella lles Abertawe heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



Y Cynghorydd Clive Lloyd
Cadeirydd y BGC



Roger Thomas
Is-gadeirydd y BGC

Ein gweledigaeth a'n hamcanion lles lleol

BGC Abertawe - y stori hyd yn hyn

Creodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fyrddau gwasanaethau cyhoeddus fel y gallai sefydliadau lleol weithio gyda'i gilydd i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardal drwy gyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru.

Yn 2016, dechreuodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) sgwrs am les yn Abertawe. Cynhaliom asesiad o les lleol er mwyn deall yr hyn sydd o'r pwys pennaf i gymunedau. Dywedodd yr asesiad wrthym fod Abertawe'n lle gwych i fyw am nifer o resymau, ond bod angen i ni weithio'n galetach gyda'n gilydd i sicrhau y gall pawb fyw'n dda yn Abertawe, elwa ohoni a bod yn falch ohoni.

Gan ddefnyddio gwybodaeth o'r asesiad a thrwy wrando ar bobl, datblygodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe Gynllun Lles Lleol yn 2018. Roedd hwn yn nodi'n pedwar amcan lles a chamau gweithredu trawsbynciol.

Y llynedd, cwblhaom ein Hadroddiad Blynyddol cyntaf ar gyfer y BGC a oedd yn amlygu'r meysydd gwaith a oedd wedi digwydd ers rhoi'r cynllun lles ar waith a sut rydym yn gweithio gyda'n gilydd i wneud i hyn ddigwydd.

Nod yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'n hamcanion yn 19/20, y gwersi a ddysgwyd a'n huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol.

Ein Gweledigaeth

Yn Abertawe, rydym yn credu yn hawliau pob person. Ein gweledigaeth yw gweithio gyda'n gilydd i wneud Abertawe'n lle sy'n ffyniannus, lle gwerthfawrogir a chynhelir ein hamgylchedd naturiol a lle gall pob person gael y dechrau gorau mewn bywyd, cael swydd dda, byw'n dda, heneiddio'n dda a chael pob cyfle i fod yn iachus, yn hapus, yn ddiogel a'r gorau y gall fod.

Er mwyn cyflawni'n gweledigaeth, rydym wedi blaenoriaethu pedwar amcan lles lleol. Gobeithiwn, drwy ganolbwyntio'n hymdrechion ar y cyd, y gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf drwy weithio gyda'n gilydd.

Ein hamcanion lles lleol ar gyfer 2040

Blaenoriaethir ein pedwar maes gwaith tymor hir allweddol isod



Blynyddoedd Cynnar - Sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd er mwyn bod y gorau y gallant fod.

Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda – Gwneud Abertawe'n lle gwych i fyw a heneiddio'n dda ynddo.

Gweithio gyda natur - I wella iechyd, cyfoethogi bioamrywiaeth a lleihau ein hól troed carbon.

Cymunedau Cryfach - Adeiladu cymunedau cryfach a chanddynt ymdeimlad o falchder a pherthyn

Yn ogystal, mae ein camau trawsbynciol ar gyfer newid yn sail i bob un o'r amcanion lles lleol.

Rhannu ar gyfer Abertawe - gweithio tuag at wasanaethau cyhoeddus integredig yn Abertawe drwy rannu adnoddau, asedau ac arbenigedd, er mwyn datblygu iaith gyffredin a gwneud i bob cyswllt gyfrif.

Datblygir hyn wrth i Arweinwyr yr Amcanion weithio gyda'i gilydd i nodi lle y gellir rhannu adnoddau, asedau ac arbenigedd fel rhan o'r gwaith i ddatblygu'r amcanion. Er enghraifft, ffurfiwyd Grŵp Digwyddiadau Tyngedfennol (GDT) ar gyfer y stryd fawr, cymerodd asiantaethau ran arweiniol yn eu meysydd gwybodaeth penodol ac mae'r bartneriaeth wedi ehangu y tu hwnt i'r partneriaid statudol i gefnogi a chynorthwyo o

ran asedau, adnoddau ac arbenigedd. Mewn perthynas â'r GDT, yr heddlu sy'n arwain ar gyfathrebu yn ogystal ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau. Mae Barod a Cymorth i Fenywod yn defnyddio ymagwedd amlasiantaeth at fynd i'r afael â thrais a chamdefnyddio sylweddau.

Mae canolfannau gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu datblygu i gydleoli a chyd-gynhyrchu er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn hygyrch mewn un lle, yn ogystal â datblygu iaith gyffredin a sicrhau bod pob cyswllt yn cyfrif ac yn ymdrin ag amryfal ymholiadau mewn un man ar y pwynt cyswllt cyntaf.

Y ffordd rydym yn gweithio - Llywodraethu

Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Mae BGC Abertawe yn ymrwymedig i weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau y diwellir anghenion presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Rydym yn gwneud hyn drwy sicrhau bod pob penderfyniad a wnawn neu'r camau rydym yn eu cymryd yn ystyried pum ffordd o weithio'r egwyddor datblygu cynaliadwy.



Tymor hir: Pwysigrwydd cydbwysu anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.



Ataliaeth: Sut gall gweithredu i atal problemau rhag codi neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.



Integreiddio: Ystyried sut gallai amcanion lles y corff cyhoeddus effeithio ar bob nod lles, ar eu hamcanion eraill neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.



Cydweithio: Gweithredu drwy gydweithio ag unrhyw berson arall (neu rannau gwahanol o'r corff ei hun) mewn modd a allai helpu'r corff gyflawni ei amcanion lles.



Cyfranogaeth - Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau lles a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.

Y Nod Llesiant Cenedlaethol

Ein nod yw sicrhau bod ein camau gweithredu'n rhoi cymaint o werth â phosib drwy sicrhau ein bod yn chwilio am amryfal ganlyniadau ym mhob peth a wnawn. Drwy sicrhau ein bod yn meddwl am bob un o'r nodau llesiant cenedlaethol isod, rydym yn mwyafu'n cyfraniad at y Gymru a Garem.

Nod	Disgrifiad o'r nod
Cymru lewyrchus	Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n creu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a grëir drwy sicrhau swyddi da.
Cymru gydnerth	Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
Cymru iachach	Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).
Cymru o gymunedau cydlynus	Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang	Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

Ein Hymrwymadau

Yn ogystal, mae holl bartneriaid BGC Abertawe wedi ymrwymo i gyfres o ymrwymadau. Mae'r ymrwymadau hyn wedi'u nodi isod ac maent yn mynd y tu hwnt i ddyletswyddau cyfreithiol y gwahanol sefydliadau a chânt eu hadolygu gan ystyried cyngor Comisiynwyr Cymru.

- **Statws Dinas Iach**

Rydym yn rhan o'r rhwydwaith Dinasoedd Iach sy'n hybu iechyd da ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd yn ein cymunedau.

- **Abertawe fel Dinas Hawliau Dynol**

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe yn cefnogi datblygu ymagwedd Dinas Hawliau Dynol yn Abertawe.

- **Hawliau Plant a Phobl Ifanc CCUHP)**

Mae'r bwrdd yn ymrwymedig i sicrhau bod gwasanaethau'n cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc yn Abertawe, ac mae wedi cynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn y ffordd rydym yn pennu'n polisïau.

- **Rhaglen Gydweithredol y 1000 Diwrnod Cyntaf**

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe wedi ymuno â'r rhaglen Gydweithredol y 1000 Diwrnod Cyntaf, sy'n cynorthwyo teuluoedd yn ystod beichiogrwydd a dwy flynedd gyntaf eu bywyd.

- **Dinasoedd a Chymunedau Croesawgar i Bobl Hÿn**

Mae'r Bwrdd yn cefnogi'r egwyddorion a'r camau gweithredu a nodir yn natganiad Dulyn ar Ddinasoedd a Chymunedau sy'n Ystyriol o Bobl Hÿn yn Ewrop.

- **Arfer Da wrth Ymgysylltu â'r Cyhoedd**

Mae'r bwrdd yn cefnogi'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru a bydd yn ymdrechu i'w dilyn yn yr holl weithgarwch cynnwys ac ymgynghori. Mae'r bwrdd yn ymrwymedig i gynnwys pawb sydd â diddordeb mewn gwella lles lleol wrth ddatblygu'r Asesiad Lles a'r Cynllun Lles a bydd yn ymdrechu i adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth wrth wneud hynny.

- **Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc**

Mae'r bwrdd yn ymrwymedig i egwyddorion y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.

- **Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog**

Mae'r bwrdd yn ymrwymedig i Gyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog a meithrin dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o'r materion sy'n effeithio ar gymuned y lluoedd arfog.

- **Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol**

Mae'r bwrdd yn ymrwymedig i gyflwyno egwyddorion y Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol fel y'u nodir yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Abertawe 2005.

- **Un Sector Cyhoeddus**

Mae'r bwrdd yn ymrwymedig i ddiwylliant sy'n croesi ffiniau sefydliadol a sectorau, Lle mae pawb sy'n ymwneud â chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n rhan o'r ymdrech cyffredin hwn, gan rannu gwerthoedd cyffredin a gweithio gyda'i gilydd er lles pobl Cymru


Sut rydym yn gweithio

Cydnabuwyd cyfyngiadau strwythur llywodraethu blaenorol y BGC a chynhaliwyd Adolygiad Llywodraethu i fynd i'r afael â hyn. Roedd yr adolygiad hefyd yn ystyried cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a rhoddwyd strwythur llywodraethu newydd ar waith. Mae'r trefniadau llywodraethu newydd yn cynnwys ffyrdd cynaliadwy o weithio ac yn rhoi cyflawni'r amcanion lles wrth wraidd yr hyn y mae'r BGC yn ceisio'i wneud i wneud gwahaniaeth.

Egwyddor allweddol yr adolygiad oedd bod gwaith y BGC yn rhan greiddiol yn hytrach na'n ychwanegiad at waith presennol ei aelodau. Dylai staff sefydliadau ar bob lefel ystyried blaenoriaethau'r BGC fel gwaith beunyddiol ac nid fel cyfrifoldeb ychwanegol.

Mae aelodau statudol y BGC ynghyd â'r Grŵp Craidd ehangach wedi cynnig bod y BGC yn elwa o broses lywodraethu symlach, gyda ffocws newydd ar amcanion cyflawni fel yr hyn sy'n ysgogiad ar gyfer y BGC. Mae hwn yn gyfle gwirioneddol i'r BGC ganolbwyntio ar wneud gwahaniaeth drwy symud y pwyslais i'r grwpiau cyflawni amcanion. Gall ymglymiad fod yn fwy ystyrlon a chynnwys ystod ehangach o bartneriaid drwy greu Fforwm Partneriaeth. Bydd grwpiau tasg a gorffen yn cael eu ffurfio mewn ymateb i'r angen a byddant yn manteisio ar sgiliau ac arbenigedd sefydliadau'r Fforwm Partneriaeth.

Bydd y broses o lywodraethu penderfyniadau yn cael ei hwyluso ar lefel strategol drwy gydbwyllgor sy'n cynnwys aelodau statudol y BGC a chyfranogwyr gwadd. Bydd y grŵp hwn hefyd yn darparu eiriolaeth a chymorth ar lefel strategol ar gyfer materion a godir gan bartneriaid y BGC drwy'r grwpiau cyflawni amcanion a fydd yn cael eu cydgysylltu a'u hwyluso gan aelod statudol. Cynhelir cyfarfodydd cydbwyllgor y BGC bob deufis a chynhelir y Fforymau Partneriaeth bob 6 mis.



Er bod BGC Abertawe wedi mynd ati'n fwriadol i geisio gwella sut rydym yn cynnwys "rhanddeiliaid anarferol", mae lle o hyd i gynnwys cynulleidfa ehangach o randdeiliaid a chyfleoedd i gynnwys y cyhoedd yn fwy rheolaidd wrth symud ymlaen.

Eir ati i weithio'n rhanbarthol drwy gyfarfodydd ar y cyd rhwng BGC Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Bu ffocws ar gamddefnyddio sylweddau/marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau/lleinellau sirol sy'n cael eu datblygu, eu hadolygu a'u monitro o hyd. Eleni, rydym wedi bod yn edrych ar atal hunanladdiad a hunan-niwed.

Roedd y cyfarfod ar y cyd a gynhaliwyd yn ddiweddar yn adrodd am y cynnydd a wnaed ar y gwaith i atal hunanladdiad a hunan-niwed yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Bu'n ystyried y camau gweithredu sy'n cael eu datblygu a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys rôl newydd y Bwrdd Diogelu mewn perthynas â data/gwybodaeth. Mae angen bod yn ymwybodol o'r heriau a wynebir a'r angen am ymgysylltiad ac ymrwymiad amlasiantaethol parhaus i weithio ar y cyd er mwyn mynd i'r afael â'r problemau.

Cynllun Lles Lleol Abertawe

Yn yr adroddiad blynyddol blaenorol (2019), cyflwynwyd 'basged' gychwynnol o fesurau ar lefel poblogaeth, gan ganolbwyntio ar ddetholiad o ddangosyddion cenedlaethol Llywodraeth Cymru i lywio barn gychwynnol ar les yn Abertawe.

Mae'r bennod hon yn crynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf yn Abertawe a thueddiadau lleol diweddar yn y dangosyddion hyn, gan ddefnyddio'r ystadegau diweddaraf a gyhoeddwyd:

- Y **bwllch disgwyliad oes iach** rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yn Abertawe (2010-14) oedd 21.9 mlynedd ar gyfer dynion (Cymru 18.7), a 16.3 o flynyddoedd ar gyfer menywod (Cymru 18.2). Ers 2005-09, mae'r bylchau wedi lleihau ychydig ar gyfer dynion yn Abertawe (o 22.4 o flynyddoedd), ond maent wedi cynyddu ar gyfer menywod (o 15.0). Ni chafwyd unrhyw ddiweddariadau diweddar i ddata 2010-14 ar lefel leol. (*Dangosydd cenedlaethol 2*)
- Roedd 11.0% o oedolion yn Abertawe wedi adrodd am lai na dau (o'r pump) o'r **ymddygiadau ffordd iach o fyw** (Cymru 10.1%) (Data Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2017-19). Mae Abertawe, ar hyn o bryd, yn waeth na chyfartaledd Cymru ar gyfer ysmegu (yn cynnwys e-sigaréts) ac yfed (yn uwch na'r canllawiau), ond yn well na chyfartaledd Cymru o ran mesurau bwyta ffrwythau a llysiau, gweithgarwch corfforol a phwysau iach. (*DC 3*)
- Mae **ansawdd aer** yn Abertawe, fel y'i mesurir gan lefelau cyfartalog blynyddol llygredd nitrogen deuocsid (NO₂), wedi parhau i wella; gan ostwng o 13.9 µg/m³ yn 2008 i 9.5 yn 2018 (data wedi'i foddelu – llygryddion fesul metr ciwbig o aer). Fodd bynnag, mae crynodiadau cyfartalog o NO₂ yng Nghymru ychydig yn is (8.9 µg/m³ yn 2018). (*DC 4*)
- Yn 2018-19, amcangyfrifir bod 14.5% o bobl 16+ oed sy'n byw mewn aelwydydd yn Abertawe'n byw **mewn amddifadedd materol** (hynny yw, yn methu â fforddio nwyddau a gweithgareddau penodol sy'n nodweddiadol mewn cymdeithas ar adeg benodol); yn uwch na chyfartaledd Cymru (13.6%) ond yn gostwng o 20.6% yn 2017-18. Fodd bynnag, mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar arolygon (cenedlaethol), felly dylid bod yn ofalus wrth ystyried newidiadau tymor byr ar lefel leol. (*DC 19*)
- Roedd 81% o oedolion yn Abertawe yn weddol fodlon neu'n fodlon iawn ar eu swyddi yn 2017-18 (Cymru 82%), gan ostwng o 86% yn y flwyddyn flaenorol (2016-17). Gofynnir i ymatebwyr cyflogedig raddio eu **bodddhad mewn swydd** ar raddfa o 0 i 10, ac mae hyn yn cynnwys y rheini a atebodd 6 neu'n uwch. Ni ofynnwyd y cwestiwn yn Arolwg Cenedlaethol 2018-19, felly nid oes diweddariad ar gael. (*DC 20*)
- Yn 2018-19, roedd 76% o oedolion yn Abertawe yn **teimlo'n ddiogel** (Cymru 71%). Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor ddiogel yr oeddent yn teimlo ar ôl iddi dywyllu yn eu cartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio (ar raddfa pum pwynt). Cafodd y rhai a ymatebodd eu bod yn teimlo'n 'ddiogel iawn' neu'n

'weddol ddiogel' i'r tri chwestiwn eu codio gan yr Arolwg Cenedlaethol fel eu bod yn 'teimlo'n ddiogel'. Mae ffigur Abertawe wedi cynyddu ers i'r cwestiwn gael ei ofyn ddiwethaf yn yr arolwg (2016-17: 66%) (DC 25)

- Yn Arolwg Cenedlaethol 2018-19, roedd 46.6% o bobl 16+ oed yn Abertawe yn cytuno â phob un o'r tri datganiad sy'n ymwneud â **chydlyniant cymunedol** (Cymru 52.2%): pobl yn cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; pobl o wahanol ddiwylliannau'n cyd-dynnu'n dda; pobl yn trin ei gilydd â pharch. Ffigurau Abertawe ar gyfer y datganiadau unigol oedd 66%, 75% a 75% yn y drefn honno, gyda ffigur Abertawe ar gyfer ymdeimlad o 'berthyn' yn is na chyfartaledd Cymru (72%). (DC 27)
- Roedd 26% o bobl 16+ oed yn Abertawe'n **gwirfoddoli** yn 2017-18 (ychydig yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 28%). Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu pobl a ddywedodd eu bod ar hyn o bryd (ar adeg yr arolwg) yn rhoi eu hamser am ddim (yn ffurfiol ac yn anffurfiol) i helpu rhestr o glybiau neu sefydliadau. (DC 28)
- Mae'r Arolwg Cenedlaethol hefyd yn cynnwys cyfres o chwe chwestiwn i asesu lefelau **unigrwydd**, sy'n cael eu cyfrifo drwy ddefnyddio graddfa unigrwydd *De Jong Gierveld*. Yn seiliedig ar y rhain, canfuwyd bod 17% o bobl 16+ oed yn Abertawe (16% yng Nghymru) yn unig yn 2017-18; ychydig yn is nag yn 2016-17 (19% yn Abertawe, 17% yng Nghymru). Ni ofynnwyd y cwestiwn hwn yn arolwg 2018-19, felly nid oes diweddariad pellach ar gael. (DC 30)
- Mae nifer yr aelwydydd lle cafodd **digartrefedd** ei atal yn llwyddiannus am o leiaf 6 mis, ar gyfradd fesul 10,000 o aelwydydd, hefyd yn ddangosydd cenedlaethol. Yn ystod 2018-19, roedd y gyfradd ar gyfer Abertawe yn 81.8 fesul 10,000 aelwyd, i fyny o 73.7 yn 2017-18 (Cymru: 54.0 yn 2018-19; 44.9 yn 2017-18). Ym mis Tachwedd 2019, amcangyfrifwyd bod 37 o bobl yn cysgu ar y stryd yn Abertawe, o fewn cyfanswm Cymru sef 405. (DC 34)
- O ran **gordewdra plant**, roedd 74.8% o blant yn y dosbarth derbyn (rhwng 4 a 5 oed) o bwysau iach yn 2017-18, yn uwch na chyfradd gyfatebol Cymru (73.6%). Mae ffigur Abertawe wedi amrywio ond parhaodd yn gymharol gyson ers 2012-13 (74.2%). Ni fu diweddariadau diweddar i'r data hwn. (*Mesur lleoedd llewyrchus*)
- Roedd adroddiad y llynedd yn cynnwys mesur o **blant sydd wedi ennill pump neu fwy o gymwysterau TGAU A* i C** gan gynnwys y Gymraeg neu Saesneg a Mathemateg ym 2017-18. Fodd bynnag, ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi newid y broses o adrodd am eu dangosyddion cyfnod allweddol 4, ac mae'n defnyddio cyfres o fesurau perfformiad dros dro ar hyn o bryd. Mae hyn hefyd wedi arwain at newidiadau i'r mesur *lleoedd llewyrchus* cyfatebol ar gyfer 2020. Yn 2018-19, roedd canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 2 yn Abertawe (sy'n cyfateb i ennill 5 TGAU gradd A*- C gan gynnwys Cymraeg/Saesneg neu Fathemateg), sef 57.3%, yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 53.8%.

Yn ystod y llynedd, cafwyd nifer o gyhoeddiadau'n ymwneud â'r mesur lles yn lleol yng Nghymru:

- Ym mis Medi 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hadroddiad blynyddol diweddaraf ar les yng Nghymru sef Llesiant Cymru. Fel rhan o'r datganiad hwn, diweddarwyd peth o'r 46 o ddangosyddion cenedlaethol hefyd (lle bu modd gwneud hynny). Roedd hwn yn adroddiad diweddarau byrrach, gyda mwy o ffocws nag o'r blaen; bwriad Llywodraeth Cymru bellach yw darparu dadansoddiad mwy manwl bob 4-5 mlynedd, i bwysu a mesur cynnydd yn y tymor hir.
- Ym mis Hydref 2019, fel rhan o'r rhaglen Mesur Llesiant Cenedlaethol (MNW) barhaus, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ddogfen Lles Personol yn y DU – a oedd yn cynnwys amcangyfrifon o fodlonrwydd bywyd, y teimlad bod y pethau a wneir mewn bywyd yn werth chweil, hapusrwydd a phryder ar lefel y DU i lefel awdurdodau lleol, gan ddefnyddio data o Arolwg Poblogaeth Blynyddol SYG. Ar bob un o'r pedwar mesur, mae sgorau cymedrig Abertawe ychydig yn waeth na chyfartaleddau Cymru a'r DU ar gyfer 2018-19.
- Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd Data Cymru'r fersiwn ddiweddaraf o *Leoedd Llewyrchus Cymru*, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â'r Centre for Thriving Places (Happy City gynt). Mae'r offeryn yn mesur cyffredinrwydd cymharol yr amodau ar gyfer lles ac ansawdd bywyd ar lefel awdurdod lleol yng Nghymru, gan ddefnyddio ystod eang o ddangosyddion (55 ar hyn o bryd) ar draws tri 'pharth' lles. Yn ôl mynegai 2020, mae gan Abertawe amodau gwell ar gyfer lles na chyfartaledd Cymru yn y meysydd 'cynaliadwyedd' a 'chydarddoldeb', ond mae'n waeth na chyfartaledd Cymru yn y parth 'amodau lleol'.

Ar hyn o bryd, disgwylir i Asesiad Lles Lleol nesaf Abertawe gael ei gwblhau a'i gyhoeddi erbyn gwanwyn 2022; a bydd y paratodau ar gyfer yr asesiad nesaf yn dechrau yn ystod y flwyddyn i ddod. Bydd hyn yn ystyried cyngor cenedlaethol ac unrhyw ddatblygiadau eraill wrth fesur lles.

Cynnydd tuag at ein Hamcanion Lles Lleol

Y Blynyddoedd Cynnar



Sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd er mwyn bod y gorau y gallant fod.

Arweinydd – Mae'r gwaith hwn yn cael ei gydlynu gan grŵp llywio'r Blynyddoedd Cynnar a'i arwain gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe.

Partneriaid/rhanddeiliaid sy'n rhan o'r gwaith

Partneriaeth y Blynyddoedd Cynnar	Grŵp Llywio'r Blynyddoedd Cynnar	Cyngor Abertawe - Addysg	Athrawon cyswllt Dechrau'n Deg/Arweinydd Strategol y Cyfnod Sylfaen
Iechyd Cyhoeddus Cymru	Gwasanaethau Ymyrryd yn Gynnar	Y Sector Gofal Plant/Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Prosiect Peilot Gofal Sylfaenol y Blynyddoedd Cynnar	Cynllun Cyn Ysgol Iach	Tîm Pobl Ifanc Actif	Gwasanaeth Jig-So
Swyddog Dilyniant y Blynyddoedd Cynnar	Tîm Dysgu Cynnar a Datblygiad Iaith	Ymwelwyr Iechyd	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Teuluoedd, grwpiau cymunedol	Lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg	<u>Bydwreigiaeth</u>	

Ers mis Ebrill 2019 bu newidiadau staffio o fewn ffrwd waith y Blynyddoedd Cynnar, a arweiniodd at rôl yr Arweinydd Amcanion a rôl y Cadeirydd yn dod yn wag.

Fel mesur dros dro, roedd swyddogion gweithredol yr is-grŵp wedi cynnal y gweithgarwch y cytunwyd arno dan gynllun gweithredu 18/19. Cynhaliodd y swyddogion adolygiad o'r gweithgarwch hyd yma er mwyn gallu cynnal arfarniad mesur a phwyso gyda golwg ar adnewyddu'r cynllun gwaith ar gyfer 20/21. Mae'r mater hwn bellach wedi'i ddatrys, a hynny'n ddiweddar, gyda Dr Keith Reid, Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus newydd ei benodi yn ymgymryd â rôl y Cadeirydd a'r Arweinydd Amcanion ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar.

Trosolwg o'r gwaith o fewn y Blynyddoedd Cynnar

Tîm amlasiantaeth ac amlddisgyblaethol yw **Jig-so** sy'n cynnwys staff iechyd ac awdurdod lleol. Nod y prosiect yw cynnig cefnogaeth i rieni ifanc neu ddiamddiffyn (24 oed ac iau) ar y cyfle cyntaf posib - yn ystod 1000 diwrnod cyntaf bywydau eu plant.

Mae'r tîm yn cynnwys 7 bydwraig, 4 nyrs meithrin, 3 gweithiwr iaith cynnar a 5 gweithiwr magu plant. Maent i gyd wedi'u cydleoli ac yn cydweithio fel un tîm. Oherwydd strwythur amlasiantaeth y tîm, mae'n gallu cynnig mwy o gymorth mwy unigol nag y gall asiantaethau eraill ei ddarparu. Mae llwyddiant y gwasanaethau'n cael ei fesur ar leihau nifer y plant sy'n dod i mewn i'r system ofal a lleihau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Ar ôl bod yn weithredol am 3 blynedd, mae'r prosiect bellach wedi'i sefydlu. Eleni, cynhaliwyd gwerthusiad annibynnol gan Brifysgol Abertawe a nododd nifer y manteision a geir drwy gymryd ymagwedd tîm amlasiantaeth. Canfu'r astudiaeth flwyddyn o hyd enillion sylweddol ar fuddsoddiad a chanlyniadau cadarnhaol i'r holl deuluoedd a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth. Defnyddiodd yr astudiaeth hon ddulliau ymchwil meintiol ac ansoddol ac fe'i hariannwyd gan grant Ysgol Ymchwil Cymru.

Cyflawniadau

- Gwell gweithio integredig rhwng bydwagedd cyffredinol a bydwagedd Jig-so, sydd wedi gwella'r broses o nodi anghenion yn gynnar a chreu llwybr atgyfeirio di-dor o wasanaethau bydwreigiaeth cyffredinol i ddarpariaeth fwy arbenigol.
- Gwell gweithio rhyngasiantaethol gyda Gweithredu dros Blant sy'n cynnwys cyfarfodydd atgyfeirio a rheoli achosion rheolaidd.
- Gwell system o reoli achosion rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a swyddogion tîm Jig-so, sy'n galluogi ymateb cynhwysfawr a hyblyg i anghenion cymhleth y teuluoedd mwyaf diamddiffyn.
- Llwybrau cymorth sefydledig i deuluoedd o fewn ardal ehangach y Gwasanaeth Ymyrryd yn Gynnar (EIS).
- Gwaith ar y cyd â'r gwasanaeth EIS ehangach i sicrhau bod anghenion rhieni, sy'n hŷn na 24 oed, yn cael eu cefnogi drwy fodel cymorth Jig-so 'rhithwir'.
- Mae Jig-so wedi'i gydnabod a'i ystyried yn enghraifft o arfer da gan Lywodraeth Cymru o ran cefnogi teuluoedd yn y blynyddoedd cynnar.
- Roedd y prosiect ar y rhestr fer ar gyfer Journal Award y gwasanaeth iechyd o dan y categori Partneriaeth Iechyd a Llywodraeth Leol.

- Gwell canlyniadau iechyd a chymdeithasol i'r rhieni ifanc a'r gyfran uwch a atgyfeiriwyd i brosiect Jig-so.
- Gostyngiad yn nifer y plant a'r teuluoedd y mae angen cefnogaeth y gwasanaethau cymdeithasol arnynt ac sydd wedi'u tynnu o'r gofrestr 'mewn perygl'.
- Dywedodd rhieni a oedd wedi defnyddio EIS eu bod yn teimlo'n fwy hyderus a'u bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl fel rhieni.

Yr heriau/y rhwystrau

- Parhau i ddatblygu ac arloesi prosiectau.
- Goresgyn yr amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau amlasiantaeth.
- Datblygu a chynnal y prosiect mewn cyfnod o galedi.
- Rheoli'r galw am wasanaethau yn erbyn gallu ac adnoddau gwirioneddol y gwasanaeth.
- Pwysau posib ar y gyllideb ar gyfer 2020/2021.

Gwaith yn y dyfodol

- Parhau i ddatblygu ac ehangu Jig-so
- Edrych ar gyfleoedd pellach i barhau i ddangos effaith y prosiect.

Rhanddeiliaid/partneriaid Jig-so sy'n rhan o'r gwaith - Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe a'r awdurdod lleol, Dinas Sir Abertawe

Mae'r **Tîm Lles Plant a Theuluoedd Gofal Sylfaenol (PCCFWT) (Rhwydwaith Meddyg Teulu)** yn cael ei ariannu gan 3 o'r 5 rhwydwaith clwstwr meddygon teulu yn Abertawe. Menter gydweithredol ydyw sy'n cael ei hariannu gan iechyd a'i gwirio gan staff o fewn gwasanaethau Ymyrryd yn Gynnar Cyngor Abertawe. Nod y prosiect yw gwella lles a gwydnwch teuluoedd drwy gynnig ymyriadau wedi'u teilwra, yn y cartref, ar gyfer teuluoedd â phlant o'u genedigaeth hyd at 11 oed, sy'n cyflwyno pryderon i'w meddyg teulu lleol ynghylch ymddygiad a datblygiad y plant.

Mae'r tîm yn cynnwys 2 weithiwr teulu amser llawn sy'n cael eu cyflogi gan Ddinas a Sir Abertawe. Mae'r prosiect bellach wedi'i sefydlu ac wedi bod ar waith ers 3 blynedd. Nododd gwerthusiad annibynnol o'r prosiect gan Brifysgol Abertawe nifer o fuddion o'r ymagwedd gydweithredol hon.

Cyflawniadau

- Gwaith amlddisgyblaeth gwell ar lefel clwstwr meddygon teulu
- Llwybr atgyfeirio gwell wedi'i sefydlu rhwng gwasanaethau ymyrryd yn gynnar a darparwyr trydydd sector.
- Y gwasanaeth arloesol hwn yw'r cyntaf o'i fath yn y DU.
- Mae'r prosiect wedi dangos ei fod wedi osgoi costau sylweddol ar gyfer gwasanaethau ehangach a fyddai wedi'u hysgwyddo gan y teuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn.
- Mae wedi dangos gostyngiad yn y galw am feddygon teulu ac amser apwyntiadau.

- Ym mis Mai 2019, cyrhaeddodd y prosiect y rhestr ar gyfer Gwobr Academi Cymru ar gyfer Gwella Canlyniadau i Bobl yng Nghymru.
- Enillodd y prosiect wobwr GIG Cymru dan y categori Gwella Lles Cleifion.
- Roedd y prosiect ar y rhestr fer ar gyfer gwobr Arloesedd Clwstwr Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol. Daeth y prosiect yn ail yn y wobwr hon.

Mae'r prosiect yn parhau i gyflawni'r canlyniadau o ran darparu gwasanaethau. Cynhaliwyd gwerthusiad yn 18/19 mewn cydweithrediad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Prifysgol Abertawe, 1,000 Lives Improvement Collaborative, Wavehill Ltd, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe. Dangosodd y gwerthusiad fod y gwasanaeth wedi arbed hyd at £86,315 o bosib mewn costau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol lefel uchel gan gynnwys amcangyfrif o £16,759 mewn apwyntiadau meddygon teulu. O'r achosion a archwiliwyd yn y gwerthusiad, dywedodd 100% o deuluoedd y bu gwelliant ym mhob agwedd ar eu lles ar gyfer plant ac oedolion.

Ni lwyddodd y prosiect i gael cyllid cenedlaethol gan Pacesetter a'r flaenoriaeth bellach yw sicrhau ffrwd ariannu newydd ar gyfer y gwasanaeth arobryn hwn a gydnabyddir yn genedlaethol.

Mae cynnig ariannu i roi hwb i'r gwasanaeth hwn, ar draws holl ardaloedd clwstwr meddygon teulu CNPT ac Abertawe, wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc (is-grŵp y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol).

Gwaith yn y dyfodol

- Parhau i reoli gallu ac adnoddau a galw.
- Parhau i archwilio opsiynau cyllido parhaus.

Tîm Lles Plant a Theuluoedd Gofal Sylfaenol (PCCFWT) (Rhwydwaith Meddygon Teulu) partneriaid/rhanddeiliaid sy'n rhan o'r gwaith - clystyrau meddygon teulu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Dinas a Sir Abertawe

Anghenion dysgu ychwanegol (ADY) - hyfforddiant nad yw'n hyfforddiant Dechrau'n Deg

Roedd cyfres o sesiynau hyfforddiant wedi'i nodi, ei chynllunio a'i chyflwyno. Roedd yr hyfforddiant yn cefnogi lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar Abertawe (gofal plant yn y sectorau preifat a'r trydydd sector) i gael gwell dealltwriaeth ac i roi sylw dyladwy i'r Côt ADY.

Nod yr hyfforddiant oedd cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith y gweithlu gofal plant i ddeall eu dyletswyddau ynghylch ADY. Roedd yr hyfforddiant yn cefnogi staff i baratoi a chynnal cynlluniau datblygu unigol (CDU) ac yn cefnogi'r gweithlu i gydweithio â rhieni, darpariaeth arbenigol a'r awdurdod lleol.

Gohiriwyd cyflwyno'r hyfforddiant tan haf 2020 yn dilyn adborth cynnar o'r gwaith cychwynnol a wnaed. Bydd y strategaeth hyfforddi yn mynd ati i 'hyfforddi'r hyfforddwr' i wella sgiliau'r gweithlu.

Bydd lleoedd hyfforddi yn cael eu cynnig i 160 o aelodau'r gweithlu gofal plant yn Abertawe. Ers cyflwyno'r sesiynau hyfforddiant cychwynnol, mae'r Seicolegydd

Addysg a'r Rheolwr Cyfleoedd Gofal Plant wrthi'n datblygu cynllun hyfforddi gwell ar ôl nodi anghenion hyfforddiant ychwanegol ynghylch ADY. Roedd y sesiynau cynyddu ymwybyddiaeth cychwynnol wedi tynnu sylw at y ffaith bod angen i'r gweithlu gofal plant gael rhagor o hyfforddiant o ran deall anghenion dysgu ychwanegol, y llwybrau at gymorth, a phrosesau atgyfeirio.

Heriau/rhwysterau

Mae un o dair sesiwn hyfforddi ADY wedi ei chyflwyno i dros 40 o reolwyr gofal plant a chydlynwyr anghenion addysgol arbennig o fewn y sector nad yw'n cael ei gynnal. Daeth yn amlwg bod angen hyfforddiant a chefnogaeth ychwanegol ar y gweithlu nad yw'n cael ei gynnal o amgylch eu dealltwriaeth o ADY a'r llwybrau atgyfeirio.

Gwaith yn y dyfodol

- Ers cyflwyno'r sesiynau cychwynnol, mae'r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Rheolwr Cyfleoedd Gofal Plant yn y broses o ddatblygu cynllun hyfforddi gwell a fydd yn mynd ati i 'hyfforddi'r hyfforddwr' er mwyn gwella sgiliau'r gweithlu.

Menter Hyfforddiant Anghenion Dysgu Ychwanegol - partneriaid/rhanddeiliaid sy'n rhan o'r gwaith

Dechrau'n deg, Addysg, Iechyd ac Iaith a Lleferydd

Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol – cynnig gofal plant 30 awr a ariennir - Dyma gyllid a ddyfernir drwy'r grant ADY i ddarparu gofal plant er mwyn darparu mwy o fynediad at ofal plant i blant 3 a 4 oed ac i gefnogi anghenion datblygu unigol pob plentyn.

Gellir defnyddio'r cyllid hefyd i wella sgiliau'r gweithlu gyda hyfforddiant megis cymorth i ddelio ag anghenion meddygol penodol neu hyfforddiant mwy cyffredinol sydd wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â darpariaeth gofal plentyn penodol.

SKIP meithrin – Datblygiad Corfforol Cynnar

SKIP meithrin yw rhaglen symud y blynyddoedd cynnar sy'n seiliedig ar dystiolaeth yr ydym wedi'i datblygu a'i chyflwyno ar y cyd â Dr Nalda Wainwright o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Sefydliad Llythrennedd Corfforol Cymru, Tîm Pobl Ifanc Actif Abertawe a'r Tîm Adnoddau Teuluoedd.

Nod y rhaglen yw gwella sgiliau'r gweithlu gofal plant fel y gallant ddarparu ystod o brofiadau symud i'r plant yn eu gofal sy'n briodol i'w datblygiad. Diben y rhaglen yw cefnogi datblygiad cymhwysedd corfforol ymhlith y blynyddoedd cynnar a chyflawni'r canlyniadau gorau posib o ran datblygiad corfforol a chyrhaeddiad addysgol.

Drwy helpu i ddatblygu sgiliau echddygol sylfaenol plant, rydym yn helpu plant i adeiladu geirfa symud a fydd o fudd iddynt yn y dyfodol ac yn eu helpu i fod y gorau y gallant fod o ran eu datblygiad corfforol a'u gweithgaredd corfforol a pha mor barod ydynt ar gyfer yr ysgol. Y nod yw datblygu sylfaen dda o sgiliau symud i roi cyfleoedd i blant gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol yn ystod eu bywyd.

Cyflawniadau

- Mae 3 mentor wedi ymgymryd â'r modiwl **Lefel 4 Datblygu a Chefnogi Datblygiad Corfforol mewn Plentynod Cynnar**.
- Rhaglen ymyrraeth 12 wythnos a ddarperir mewn 11 lleoliad Blynyddoedd Cynnar ledled Abertawe.
- Yn ddiweddar, cyflwynwyd y dystiolaeth i gefnogi ehangu rhaglen SKIP Meithrin ledled Abertawe i Lywodraeth Cymru, a'i chytuno ganddi.

Heriau/rhwysrau

- Mae'r gallu i gyflwyno'r rhaglen 12 wythnos ym mhob lleoliad y Blynyddoedd Cynnar yn gyfyngedig i amser staff a chynnal cymarebau lleoliadau.
- Ansicrwydd ariannol ynghylch cefnogi hyfforddiant ac adnoddau.

Gwaith yn y dyfodol

- Mae'r broses o gyflwyno cefnogaeth i leoliadau Blynyddoedd Cynnar yn mynd rhagddi, gyda 3 lleoliad ychwanegol yn ymuno â'r rhaglen ac yn cael cefnogaeth 12 wythnos. Ei nod yw sicrhau y caiff ei chyflwyno'n llawn ar draws pob lleoliad Blynyddoedd Cynnar mewn amser.
- Gwella'r gwaith o fentora'r staff sy'n gweithio gyda'r plant mewn lleoliadau.
- Parhau i fentora'r lleoliad sydd wedi defnyddio hyfforddiant SKIP Meithrin i sicrhau bod y dysgu'n troi'n arfer.

SKIP meithrin- partneriaid/rhanddeiliaid sy'n rhan o'r gwaith

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCYDDS), Dechrau'n Deg, meithrinfeydd dydd heb eu cynnal, Tîm Pobl Ifanc Actif, Tîm Adnoddau Teuluoedd, Dinas a Sir Abertawe, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Rhaglen drawsnewid a noddir gan Lywodraeth Cymru yw **Cynllun Braenaru Integreiddiad Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru** sy'n ceisio creu system leol symlach ar gyfer y blynyddoedd cynnar, o feichiogrwydd i 7 oed ac sy'n galluogi pob plentyn yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot i gael yr un canlyniadau a'r un cyfleoedd.

Mae BGC Abertawe bellach yn cydweithio â BGC Castell-nedd Port Talbot fel rhan o raglen fraenaru'r Blynyddoedd Cynnar. Y weledigaeth yw bod gwasanaethau lleol yn ddi-fwlch ac yn ddigon ystwyth wrth ymateb i effaith adfyd cymdeithasol ac angen cynyddol.

Cyflawniadau

- Penodi'r Cydlynnydd Braenaru.
- Trefnu digwyddiad mapio sy'n edrych ar wasanaethau ar draws y pedwar maes ffocws.
- Datblygu a chyflwyno'r ddogfen Dechrau Prosiect y cytunwyd arni gan y Bwrdd Prosiect ym mis Tachwedd 2019
- Nodi Lluchwr fel ardal beilot y ffocws. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad mapio llwyddiannus ym mis Rhagfyr 2019 sydd wedi mapio'r holl wasanaethau ar draws iechyd, chwarae, dysgu a chefnogaeth deuluol o feichiogrwydd i 7 oed. Datblygwyd mapiau llwybrau drafft ac mae'r gweithlu ar hyn o bryd yn ymwneud â'r broses drwy arolygon ac ymgynghoriad ym mis Mawrth.
- Gyda chymeradwyaeth Bwrdd y Rhaglen, cyflwynwyd cynnig ariannol i Lywodraeth Cymru i brofi model gwasanaeth integredig yn ardal clwstwr gofal sylfaenol Lluchwr. Mae Bwrdd y Prosiect wedi cael adborth gan Lywodraeth Cymru ac mae'r cynnig yn cael ei fireinio ar hyn o bryd a chaiff ei ailgyflwyno cyn bo hir.
- Datblygwyd mapiau llwybrau drafft sy'n cwmpasu llwybr y blynyddoedd cynnar ar draws iechyd, chwarae, dysgu a chymorth i deuluoedd. Cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori ar 10 Mawrth.
- Mae prosiect integreiddio clwstwr gofal sylfaenol Lluchwr wedi cael adborth cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru ac mae'r cynnig yn cael ei fireinio ar hyn o bryd a chaiff ei ailgyflwyno'n fuan.

Cynllun Braenaru Integreiddio Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru - partneriaid/rhanddeiliaid sy'n rhan o'r gwaith - awdurdod lleol CNPT, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

I grynhoi, gwnaed cynnydd sylweddol ym mhob un o'r meysydd a nodir uchod. Mae'r cynllun gweithredu yn cael ei ddiwygio ar hyn o bryd er mwyn adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma a sicrhau cymeradwyaeth partneriaeth i fynd ar drywydd y cynllun yn ystod y flwyddyn nesaf.

Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda



Gwneud Abertawe'n lle gwych i fyw a heneiddio'n dda.

Arweinydd – Cydlynir y gwaith hwn gan y gweithgor Byw'n Iach, Heneiddio'n Dda a arweinir gan Gyngor Abertawe.

Partneriaid/rhanddeiliaid sy'n rhan o'r gwaith

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	Abertawe sy'n Ystyriol o Dementia	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg	Cyngor Abertawe-Addysg	Cyngor Abertawe-Gwasanaethau Cymdeithasol
Prifysgol Abertawe	Heddlu De Cymru	Cymdeithas Clefyd Alzheimer
Pobl	Ysgolion	Cymdeithasau Tai
Prifysgolion	Iechyd	Grŵp Tai Coastal
Sector gwirfoddol	Y Sector Preifat	

Trosolwg o'r gwaith o fewn Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda

Cafwyd cynnydd yn erbyn llawer o'r 'camau' a amlinellir yn y Cynllun Lles fel y dangosir isod.

Newid mewn diwylliant - dechrau trafodaeth ar draws cenedlaethau am yr hyn y mae'n ei olygu i fyw a heneiddio'n dda a datblygu ymgyrch yn seiliedig ar yr adborth.

Er mwyn bwrw ymlaen â'r cam hwn, mae cynnwys a chyfranogiad dinasyddion wedi bod yn nodweddiadol drwy ddulliau fel y Sgwrs Fawr, Fforwm Byw'n Dda Heneiddio'n Dda a chyfleoedd rhwng y cenedlaethau eraill.

Sgyrsiau mawr

Cafodd 1,521 o bobl y cyfle i leisio'u barn. Mae'r ffaith eu bod wedi cymryd rhan wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n cynlluniau a'n gwasanaethau. Roedd plant 7-11 oed o 32 o ysgol gynradd, pobl ifanc 11-18 oed o 13 ysgol uwchradd a 12 oedolyn o ystod o wasanaethau dydd, fforymau oedolion a lleoliadau gofal preswyl wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau yn ystod y cyfnod hwn hefyd.

Roedd blwyddyn academaidd 2018-19 yn canolbwyntio ar bob un o'r amcanion sydd yn y cynllun lles. Ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20, roedd yn canolbwyntio ar bedair egwyddor arweiniol y CCUHP ac felly mae plant, pobl ifanc ac oedolion wedi gweithio gyda'i gilydd i ymchwilio i gyfranogiad a lles pennaf (dosbarthwyd adroddiadau ar gyfer pob un i'r BGC).

Roedd 14 o gynghorwyr ac uwch-swyddogion hefyd yn bresennol i gymryd rhan mewn sesiynau holi ac ateb, ymholiadau a sesiynau:

- **Y Sgwrs Fawr - fforymau ar draws y sir:** Cymerodd 795 o blant, pobl ifanc a phobl hŷn ran mewn sgyrsiau mawr a oedd yn archwilio pynciau fel LGBTQIA+, addysg amgen, codau ymarfer ADY, ailddatblygu'r ddinas, tai a digartrefedd, cymunedau cryfach a gweithio gyda natur, (3 ohonynt ar gyfer plant oedran ysgol gynradd, 3 ar gyfer pobl ifanc o oedran ysgol uwchradd, a 2 sgwrs fawr rhwng y cenedlaethau).
- **Sgyrsiau Mawr i'r rheini sydd wedi profi gofal:** cymerodd 67 o blant ran mewn fforymau i ddweud wrthym yr hyn sy'n bwysig i blant sydd mewn gofal, neu sydd wedi bod mewn gofal, ac sydd wedi gadael erbyn hyn.
- **Sgyrsiau Mawr i drafod Cydlyniant Cymunedol:** cymerodd 50 o bobl ifanc ran mewn cyfleoedd ar gyfer trafodaethau a hwyluswyd ar faterion megis eithafiaeth, sŷn mewn cymunedau, cydlyniant cymunedol, hiliaeth a rhagfarn.
- **Gwaith Prosiect mewn Ysgolion:** gweithiwyd gyda 609 o blant trwy ymweliadau ag ysgolion, cynghorau ysgol a chlybiau ysgol eraill.

Yn 2019 dathlwyd 5ed pen-blwydd y Cynllun Hawliau Plant yn Abertawe.

Roedd y digwyddiad yn ddathliad o daith Hawliau Abertawe hyd yn hyn, ac o'r bobl niferus o ysgolion, cymunedau a gwasanaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd i wneud ymrwymiad Abertawe i hawliau'n wirionedd i blant a phobl ifanc.

Roedd 204 o blant, pobl ifanc a darparwyr gwasanaethau wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau a chynnal stondinau yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, lle dathlwyd hawliau drwy weithgareddau, areithiau, stondinau gwybodaeth a chyfleoedd ymgynghori.

Pa wahaniaeth mae gwranddo wedi'i wneud?

Mae pobl yn werthfawr wrth helpu i greu gwasanaethau gwell. Rhoddodd penderfynwyr a darparwyr gweithdai adborth ar bynciau y mae plant yn eu trafod ar ffurf "Dywedoch chi - Gwnaethom ni - Mae hyn yn golygu". Nodir rhai o'r canlyniadau isod:

Cydraddoldebau: Cynhaliodd Cynghorwyr drafodaethau â phlant a phobl ifanc a oedd yn canolbwyntio ar brofiadau anghydraddoldeb. Roedd eu barn wedi helpu i lywio Adroddiad Craffu Cydraddoldebau Abertawe.

Addysg Amgen: Cafodd bobl ifanc gyfle i ddweud eu dweud ar y safle newydd ar gyfer Darpariaeth Addysg Amgen yn Abertawe. Roedd eu syniadau hwy wedi helpu i gyfeirio proses ddylunio'r adeiladau.

Tlodi'r Misglwyf: Mae ysgolion wedi cyflwyno cynlluniau lle gall disgyblion gael gafael ar gynnyrch mislif am ddim, ar unrhyw adeg yn ystod y diwrnod ysgol fel bod llai o ferched yn colli ysgol oherwydd tlosti'r misglwyf.

Adnoddau: Mae llyfr stori i blant sef "The Family that learnt to listen", ac adnodd fideo "I has a Voice", wedi'u datblygu gan blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.

Recriwtio: Roedd pobl ifanc a dderbyniodd wasanaeth oddi wrth y Gwasanaethau Plant wedi dyfeisio, sgorio a gwerthuso rhan o broses recriwtio pobl ifanc ar gyfer swyddi prif swyddogion.

Gwrth-eithafiaeth: Cyfarfu pobl ifanc â gwirfoddolwyr o grwpiau, ysgolion a chlybiau yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot i drafod gwrthderfysgaeth ac maent yn gweithio ar brosiectau Gweithredu yn y Gymuned i wrthsefyll naratifau'r asgell dde yn lleol

Cynllun Hawliau Plant: mae ymgynghori â phlant, pobl ifanc ac oedolion wedi dechrau ar y broses o adolygu Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc Abertawe er mwyn sicrhau bod ymarfer sy'n seiliedig ar hawliau yn berthnasol, yn briodol ac yn addas i'r diben yn Abertawe.

Cafwyd ystod wych o siaradwyr a gweithgareddau rhyngweithio a stondinwyr

Mae'r fforymau **Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda** i ddinasyddion 50 + oed, a gydlynir gan Gyngor Abertawe, wedi bod yn denu niferoedd uwch o gyfranogwyr dros y flwyddyn ddiwethaf,

gyda phob fforwm/digwyddiad yn denu rhwng 60 ac 80 o bobl. Hyd yma yn 2019/20 dewiswyd pynciau gan gyfranogwyr ac fe'u cydlynwyd mewn amrywiaeth o ffyrdd, cynigiwyd cyflwyniadau, trafodaethau a dadleuon ynghyd â gweithdai a gwybodaeth am y farchnad a stondinau cyngor. Mae yna bob amser ardal wedi'i neilltuo ar gyfer 'paned a sgwrs', sy'n cael ei werthfawrogi gan bawb. Cafodd themâu cynhwysiad digidol, cyfathrebu a gwybodaeth, iechyd a lles, trafndiaeth ac mynd hwnt ac yma a chadw'n ddiogel eu cynnwys yn 2019/20.

Fel y nodwyd uchod, cychwynnwyd **Sgyrsiau Mawr Rhwng y Cenedlaethau** yn ystod y flwyddyn, a gwahoddwyd cynrychiolwyr o'r grŵp oedran 50+, ynghyd ag aelodau eraill o'r cyhoedd. Derbyniwyd adborth da, gyda'r holl gyfranogwyr yn elwa'n gadarnhaol o'r digwyddiadau.

Diolch yn fawr iawn am y cyfle anhygoel hwn i siarad a thrafod gyda phobl hŷn ac iau ac i gael clywed eu safbwyntiau.

Anfonir **cylchlythyr Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda** at y rheini sydd ar ein rhestr bostio, sefydliadau trydydd sector a grwpiau cymunedol ac mae'n cael ei gynhyrchu bob chwarter. Mae'r cynnwys yn seiliedig ar y pum ffordd at les, sef cysylltu, rhoi, cadw'n heini, dysgu a chymryd sylw*. Mae dyddiadau dyddiadur perthnasol yn cael eu cynnwys, ynghyd â chyfleoedd i ymgynghori, gwybodaeth, cysylltiadau â sefydliadau, cyfleoedd ymchwil a gwirfoddoli etc. sy'n berthnasol i'r tymor a'r themâu uchod. (*datblygwyd gan y New Economics Foundation)

Ymagweddau Blaengar at Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Cefnogi Cymunedau sy'n Ystyriol o Dementia

Prosiect adrodd stori digidol yw Cenedlaethau sy'n Ystyriol o Dementia er mwyn dod â phobl ifanc a hŷn Abertawe at ei gilydd, i greu dealltwriaeth o ddementia ac i archwilio materion sy'n ymwneud â bod yn ifanc ac yn hen, i ddysgu gan ein gilydd a dathlu'r adegau hynny drwy ddod o hyd i'n straeon a'u hadrodd.

Nod y prosiect Cenedlaethau sy'n Ystyriol o Dementia yw cefnogi pobl â dementia i wella'u hymdeimlad o les a chael ymdeimlad cryfach o reolaeth ac i gael llais wrth rannu eu profiadau bywyd â'r genhedlaeth iau wrth ymgysylltu a chymryd rhan yn llawnach fel aelodau o'u cymuned.

Ariannwyd y prosiect gan y Gronfa Gofal Integredig (CGI) gyda'r weledigaeth o ddatblygu "Cenedlaethau sy'n Ystyriol o Dementia" a chynyddu ymwybyddiaeth o ddementia ledled Abertawe. Mae timau'r cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Alzheimer i ddatblygu'r prosiect hwn.

Rhannwyd y prosiect "Cenedlaethau sy'n Ystyriol o Dementia" yn ddwy ran, Ysgolion sy'n Ystyriol o Dementia a Chartrefi sy'n Ystyriol o Dementia. Roedd cerddoriaeth rhwng y cenedlaethau a sesiynau adrodd straeon yn ganolog i'r prosiect. Hwyluswyd y gwaith hwn gan fudiad celfyddydau cymunedol o'r enw *People Speak Up*. Mae'r sefydliad wedi'i gomisiynu i hwyluso sawl sesiwn adrodd stori gan ddod â phobl ifanc a hŷn at ei gilydd drwy gyfrwng straeon, caneuon a sgwrsiau. Nod y cynllun peilot Ysgolion sy'n Ystyriol o Dementia oedd annog mentora cyfoedion o ysgolion peilot i ysgolion o fewn clystyrau ac ar draws Abertawe. Mae'r prosiect Dementia wedi gweithio gyda 4 ysgol gynradd (Gendros, Llandeilo Ferwallt, Sgeti, San Joseff), 2 ysgol uwchradd (Pontarddulais a Phentrehafod), 110 o ddisgyblion a 30 o breswylwyr/defnyddwyr gwasanaeth "The Hollies" a "Gwasanaeth Dydd St John". Hyfforddwyd pum Hwrwyddwr Dementia ac maent wedi darparu sesiynau gwybodaeth am ddementia i staff addysgu, disgyblion, staff cartrefi/gwasanaethau gofal a phreswylwyr/defnyddwyr gwasanaeth.

Ysgol Gyfun Pontarddulais yw'r ysgol gyntaf yn Abertawe i'w chydabod yn swyddogol gan y Gymdeithas Alzheimer a dod yn ysgol sy'n ystyriol o ddementia.

Daeth Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ymweld â'r prosiect y llynedd.

Roedd

y prosiect "Cartrefi sy'n Ystyriol o Dementia" yn cynnwys comisiynu *People Speak Up* (PSU) a *Sound Memories Radio* i gyflwyno prosiect peilot Cenedlaethau sy'n Ystyriol o Dementia '*To Be In the Now*' - prosiect hanes bywyd am ddementia sy'n

grymuso 4 o bobl hŷn sy'n byw yn Abertawe, e'u teuluoedd a'u gofalwyr er mwyn gwella cyfathrebu, gwydnwch a chysylltedd cymunedol a galluogi pobl hŷn â dementia sy'n byw gartref i fod yn rhan o'u datrysiad eu hunain.

Roedd y prosiect yn cynnwys cydweithio rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol, *People Speak Up*, Tîm Adnoddau Cymunedol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Cydlynu Ardaloedd Lleol a Chanolfan Gofalwyr Abertawe.

Cynhyrchwyd llyfryn a oedd yn cynnwys tri theulu gan PSU a Sound Radio Memories i ddathlu'r prosiect. Gelwir y llyfryn yn "*To be in the Now*" ac roedd yn ymwneud â chreu adnoddau hanes bywyd pwrpasol ar gyfer pobl hŷn sy'n byw gartref â dementia. Gellir gweld y tri chyfranogwr (Violet, Margaret ac Arthur) a'u straeon yn y ddolen isod:

<https://www.flipsnack.com/teachchanting/to-be-in-the-now.html?fbclid=IwAR3EOfs06hOf-J-rJsEyAGmz5eGkj-jEdnF-9Q-ChypHNrDsYNVxHu-yOOK>

Ymagweddau blaengar at iechyd a gofal cymdeithasol – mwyafu ar ymagweddau presennol ac archwilio ymagweddau sy'n seiliedig ar ofal diwedd bywyd.

Mae Rheolwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a Chartrefi Gofal wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â chydlynnydd gofal diwedd oes Macmillan ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i adolygu a gwella arferion diwedd oes yng nghartrefi'r Awdurdod Lleol.

Mae hyn wedi cynnwys defnyddio Fframwaith Ansawdd Rhanbarthol Bae'r Gorllewin i arwain datblygiadau, gan gyflwyno hyrwyddwyr 'Diwedd Oes' ar draws cartrefi gofal, datblygu ffeil gyfeirio gadarn ynghylch arfer ac arloesedd o ran diwedd oes a datblygu pecyn sy'n cynnwys gwybodaeth i ofalwyr.

Mae hyrwyddwyr wedi'u nodi ar draws gwasanaethau a nodwyd aelodau o staff a fydd yn arwain y gwasanaeth mewn meysydd penodol. Mae'r timau'n cael hyfforddiant ychwanegol, cyfleoedd mentora a chyfarfodydd grŵp cefnogi bob 6 wythnos i wella arfer ac i ddal i fyny â'r datblygiadau diweddaraf ac arfer gorau. Mae hyn wedi galluogi archwilio cynlluniau gofal ymlaen llaw a'r heriau o gael sgysiau a all fod yn eithaf anodd i rai.

Mae pecynnau gwybodaeth "Mae'ch bywyd chi o bwys" wedi'u datblygu sy'n dechrau gyda'r mater pwysig o ddarganfod pwy yw'r person a beth sy'n bwysig iddo mewn bywyd ac yna i brofi marwolaeth dda.

Ymagweddau sy'n seiliedig ar y gymuned - Archwilio ystod o fentrau i fynd i'r afael ag unigedd cymdeithasol a meithrin gwydnwch personol ar draws y BGC a'r sector gwirfoddol

Mae ymagwedd y Cydlynwyr Ardaloedd Lleol yn parhau i weithio yn ein cymunedau. Maent yn helpu unrhyw un i adeiladu perthynasoedd o fewn eu cymuned ac yn cefnogi pobl hŷn, pobl anabl, pobl a chanddynt broblemau iechyd meddwl a'u teuluoedd.

Mae gwasanaeth Cydlynu Ardaloedd Lleol yn Abertawe wedi ehangu gyda 5 o gydweithwyr newydd yn ymuno â'r tîm. Roedd y broses gyfweld yn cynnwys cydweithio cymunedol ar draws y pum ardal yn Abertawe, gyda mewnbwn gan bobl o bob cefndir (gan gynnwys Men's Sheds, Grwpiau Cyfeillion Parciau, grwpiau cerdded, grwpiau cefnogaeth iechyd meddwl, grwpiau crefft, grwpiau cymorth profedigaeth, eglwysi a sefydliadau partner: Coastal, Pobl, Canolfan Cyngor ar Bopeth a CGGA (Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe).

Mae cynnwys y gymuned yn y broses yn hanfodol ac mae'n galluogi i'r gymuned fod yn berchen ar y rôl o'r cychwyn cyntaf. Mae'r gwaith o adeiladu perthynas a dysgu am yr hyn sy'n digwydd yn ystod sesiynau trafod cymunedol yn cael ei gario drosodd pan fydd y Cydlynnydd Ardaloedd Lleol newydd yn dod i adnabod ei ardal a phreswylwyr y gymuned.

Mae'r ardaloedd a fydd yn cael eu cwmpasu yn awr yn cynnwys cymunedau Treforys, y Clâs, Llangyfelach, Clydach, Gellifedw, yr Hafod, Plas-marl, Glandŵr, Treboeth, Tre-gŵyr, Penclawdd a Chasllwchwr, gan ddod â chyfanswm nifer y Cydlynwyr Ardaloedd Lleol i 16.

Dros y 4 blynedd a hanner diwethaf, mae pobl a chymunedau ledled Abertawe wedi elwa o gael cydlynnydd yn cerdded wrth eu hymyl wrth iddynt ddod i wybod eu fersiwn nhw o fywyd da a gweithio tuag ati.

Gall unrhyw un gael ei gyflwyno i gydlynnydd os yw'n byw yn yr ardal. Mae Cydlynwyr Ardaloedd Lleol yn gweithio mewn ffordd sy'n seiliedig ar gryfderau ac maent yn cymryd amser i ddod i adnabod pobl, eu teuluoedd a'u cymunedau.

Mae gwasanaeth dydd St. John hefyd wedi bod yn cydweithio'n gydgyhyrchiol i ddatblygu gwasanaethau cymunedol ac i roi'r gwasanaeth wrth galon y gymuned leol, i adeiladu perthnasau parhaol â phobl, i herio ystrydebau ac i chwalu rhwystrau fel bod pobl yn teimlo eu bod yn gallu gofyn am help a chefnogaeth. Mae'r mentrau hyn yn cael effaith ataliol ac maent yn helpu i leihau'r angen am gefnogaeth ffurfiol yn yr ardal leol.

Tynnwyd sylw arbennig at dair menter sy'n ymwneud â chanolfan St John.

- Datblygu'r ardd gymunedol ymhellach - yn ddiweddar, sefydlodd canolfan St John 'Gaban Gweithredu' dan arweiniad Men's Shed i gefnogi dynion sy'n wynebu problemau o ran unigrwydd neu iechyd meddwl. Mae rhan o'r ardd bellach yn gartref i le coffa newydd, ac mae canolfan St John yn gofalu am ddau blac coffa sy'n rhestru enwau'r arwyr dewr lleol a gollodd eu bywydau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.
- Cynllun Cludiant Cymunedol Cae Rowland - Mae canolfan St John wedi datblygu Cynllun Cludiant Cymunedol a gefnogir gan wirfoddolwyr ac mae'n brysur iawn. Mae angen i bobl ddi-amddiffyn gael mynediad i'r gymuned, p'un a yw hynny ar gyfer mynd i apwyntiadau, ymweld â ffrindiau neu deulu, siopa neu fynd allan am goffi. Mae gan ganolfan St John gysylltiad ag uned ymateb cyflym Ysbyty Castell-nedd a Phort Talbot i alluogi pobl nad oes ganddynt unrhyw gymorth arall i gyrraedd eu hapwyntiadau ar amser.
- Mae canolfan St John yn gwerthfawrogi gwirfoddolwyr ac mae ganddo lawer o bobl sy'n dod i'r gwasanaeth o bob cefndir, gan gynnwys oedolion ag anabledd dysgu, pobl sydd wedi ymddeol, pobl ifanc sy'n chwilio am brofiad gwaith, pobl sydd wedi bod allan o waith am flynyddoedd lawer. Maent wedi bod yn rhan annatod o'r gwaith o fewn y gwasanaeth dydd a'r gymuned ehangach.

Ymwelodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Helena Herklots, a Dirprwy Weinidog y Cynulliad dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan, â phrosiectau canolfan St John cyn y Nadolig. Roedd y ddwy yn falch o ddysgu mwy am y prosiectau.

Tai a Thechnoleg Flaengar – archwilio opsiynau ar gyfer pobl ag anghenion gofal ychwanegol sy'n eu helpu i aros yn annibynnol gartref

Cynhelir adolygiad o gwmpas y maes hwn yn 20/21.

Gwneud i bob cyswllt gyfrif – datblygu a rhannu negeseuon ac adnoddau ar y cyd sy'n helpu pobl i aros yn ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi.

Bydd y cysyniad o wneud i bob cyswllt gyfrif yn cael ei archwilio yn 20/21 drwy'r gweithgor Llythrennedd lechyd a fydd yn cael ei drafod ymhellach yn yr adroddiad.

Yn ystod 19/20, canolbwyntiwyd yn bennaf ar ailedrych ar gamau presennol y Cynllun Lles o dan yr amcan hwn i gadarnhau beth yw busnes fel arfer a pha gamau fyddai'n elwa o ymagwedd partneriaeth ar y cyd.

Cynhaliwyd ymarfer mapio o waith presennol ar "heneiddio'n dda" a bwydwyd meysydd perthnasol i'r Amcan Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda i sicrhau nad oedd unrhyw beth yn cael ei gollu a chynhaliwyd cyfres o weithdai partneriaeth i adlewyrchu'r daith ac i nodi meysydd gwaith allweddol wrth symud ymlaen.

Cyflawniadau

- Sicrhau bod cysylltiad ag Amcan y Blynyddoedd Cynnar i sicrhau bod ymagwedd a llwybr di-fwlch ar draws yr ystod oedran.
- Sicrhau bod cysylltiad â'r amcan Cymunedau Cryfach i ddeall y tebygrwydd rhwng y ddau ac i osgoi dyblygu.
- Mae partneriaethau'n ymrwymo'n dda i'r amcan.
- Mae llawer iawn o waith yn cael ei wneud ar y maes hwn eisoes.
- Ehangwyd y sylfaen wybodaeth i bartneriaid ehangach drwy'r gyfranogaeth bresennol.

Heriau/rhwysterau

- Peidio â chyfuno gwaith sydd eisoes yn bodoli fel ein bod yn gallu sicrhau ei fod yn ychwanegu gwerth ac nad yw'n dyblygu busnes fel arfer.
- Peidio â chael y bobl iawn o amgylch y bwrdd i gymryd y camau gweithredu angenrheidiol neu wneud penderfyniad i allu cyflawni'r canlyniad.
- Sut i rhangu cwmpas ac ystod oedran yr amcan hwn.

Gwaith yn y dyfodol

Mae ymagwedd fwy thematig wedi cael ei defnyddio, a bydd yn parhau i gael ei defnyddio, ynghylch y tair blaenoriaeth allweddol, sy'n cwmpasu pob elfen o'r camau gwreiddiol a amlinellwyd i symud ymlaen.

Mae'r grŵp amcan Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda wedi defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i nodi tair blaenoriaeth allweddol a sefydlu targedau a chamau gweithredu CAMPUS ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau hyn.

Mae'r tair blaenoriaeth gytunedig i ganolbwyntio arnynt ar gyfer 20/21 fel a ganlyn;

- **Dinas i Bawb** - mapio statws presennol y ddinas a'i ymrwymadau cysylltiedig; nodi cyfleoedd, achosion o orgyffwrdd a nodweddion cyffredin gyda ffocws ar gryfderau a dealltwriaeth o'r hyn y mae "Dinas i Bawb" yn ei olygu i ddinasyddion Abertawe
- **Tethio Llesol** - cynnal archwiliad i nodi rhwystrau a phroblemau, gan ddefnyddio model a chynllun peilot OPERAT, sef Offeryn Asesu Preswyl Allanol Pobl Hŷn (OPERAT)
- **Llythrennedd Iechyd/Heneiddio'n Iach** - Mae cydweithwyr o Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyngor Abertawe a'r trydydd sector yn ystyried dwy flaenoriaeth:
 - Rhestr wirio llythrennedd iechyd a rennir (yn edrych ar y 5 uchaf megis dementia, ysmegu, dim siwgr, mannau gwyrdd, dechrau gorau) a chytuno ar y 5 thema orau a sefydlu a oes marc safon/ansawdd i'w gyflwyno ar draws y BGC
 - Cefnogi'r adroddiad newydd ar "Heneiddio'n Iach" a'r "Ymgyrch Lleihau Risg Dementia" a lansiwyd ddiwedd mis Ionawr 2020. Nod yr ymgyrch yw annog pobl i fyw bywydau sy'n fwy iach. Mae'r ymgyrch yn dilyn ymchwil gan yr Athro Peter Elwood ym Mhrifysgol Caerdydd, a ganfu y gall bywyd iachach leihau risg unigolyn o gael dementia cynnar. Canfu ei astudiaeth - dros 35 mlynedd yn edrych ar bobl yng Nghaerffili- "fudd enfawr".

Mae tri gweithgor ar wahân wedi'u sefydlu i yrru'r blaenoriaethau yn eu blaen ac i nodi arweinwyr y bartneriaeth er mwyn bwrw ymlaen â chymau gweithredu rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020 i gyfeirio cyflwyno ar gyfer 20/21.

Mae gan bob blaenoriaeth weithgor penodol gydag arweinydd enwebedig a chynllun gweithredu drafft gyda chanlyniadau ac amserlenni disgwylidig.

Partneriaid/rhanddeiliaid sy'n rhan o'r gwaith - partneriaid PSB, partneriaid ehangach y tu allan i'r BGC, arweinwyr gweithredol a dinasyddion ar draws yr ystodau oedran.

Gweithio gyda Natur



Gwella iechyd, cyfoethogi bioamrywiaeth a lleihau ein hól troed carbon.

Arweinydd – cydlynir y gwaith hwn gan Dasglu Gweithio Gyda Natur ac fe'i harweinir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Fforwm yr Amgylchedd Abertawe (FfEY).

Partneriaid/rhanddeiliaid sy'n rhan o'r gwaith

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)	Fforwm yr Amgylchedd, Abertawe	Cyngor Abertawe
Prifysgol Abertawe	Partneriaeth Natur Leol Abertawe	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	Rhwydwaith Bae Abertawe Carbon Isel	Canolfan yr Amgylchedd
Prosiect Mannau Gwyrdd Cymunedol Abertawe	Fforwm Coed Abertawe	Llywodraeth Cymru
Green Infrastructure Consultancy		

Trosolwg o'r gwaith o fewn Gweithio gyda Natur

Mae'r amcan Gweithio gyda Natur yn tynnu sylw at bwysigrwydd yr amgylchedd naturiol i iechyd a lles, ac yn nodi cynigion ar gyfer cynyddu'r isadeiledd gwyrdd a bioamrywiaeth, lleihau ein hól troed carbon a gwella ein dealltwriaeth o adnoddau naturiol a chynnaladwyedd.

Mae amgylchedd naturiol Abertawe'n un o ansawdd a phrydferthwch eithriadol. Mae'r amrywiaeth o dirweddau, cynefinoedd a rhywogaethau a gynhelir ganddi yn ei gwneud yn un o'r siroedd mwyaf deniadol ac ecolegol gyfoethog yn y DU.

Sefydlwyd y tasglu Gweithio gyda Natur gyda chynrychiolwyr o Aelodau'r BGC a phartneriaid eraill i ddatblygu a chyflwyno cynllun gweithredu ar gyfer yr amcan hwn.

Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â meysydd gweithredu yn y cynllun gweithredu Gweithio gyda Natur.

Isadeiledd Gwyrdd



Defnyddir y term Isadeiledd Gwyrdd (IG) i ddisgrifio holl nodweddion yr amgylchedd naturiol o fewn ein trefi a'n dinasoedd a rhyngddynt.

Daeth Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Abertawe at ei gilydd gan sylweddoli bod angen ymagwedd strategol at lasu trefol ar draws canol y ddinas.

Mae preswylwyr a busnesau Abertawe wedi helpu i ddrafftio cynllun allweddol i helpu i gyflwyno dinas wyrddach. Mae eu syniadau a'u meddyliau a gasglwyd drwy ymgynghoriad cyhoeddus eleni, wedi'u cynnwys yn y ddogfen Adfywio'n Dinas er Lles a Bywyd Gwylt, sef strategaeth ddrafft isadeiledd gwyrdd canol dinas Abertawe. Y neges ddi-ddadl o'n hymgysylltiad â'r cyhoedd oedd bod natur y ddinas yn bwysig i bobl; mae'n cynyddu eu mwynhad a'r amser y maent yn ei dreulio yng nghanol y ddinas.

Cafodd y strategaeth ddrafft a ddatblygwyd gan Gyngor Abertawe, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'r Green Infrastructure Consultancy - ei chyflwyno i Gabinet y cyngor ar 17 Hydref. Mae'n hyrwyddo ymagwedd fwy cydlynol at ymgorffori isadeiledd gwyrdd yng ngwaith adfywio canol y ddinas yn y dyfodol. Mae'r strategaeth yn archwilio buddion a chost-effeithiolrwydd isadeiledd gwyrdd o ran lleihau perygl llifogydd, aer a dŵr glanach, lleihad mewn sŵn, enillion mewn bioamrywiaeth a llai o allyriadau CO2. Mae'r strategaeth hon hefyd yn nodi'r weledigaeth i ganol Abertawe fod yn wyrddach o lawer, gan greu mannau gwyrdd a defnyddio cyfuniad o nodweddion ar lefel y stryd megis coed stryd a gerddi glaw yn ogystal â llystyfiant ar adeiladau, gan gynnwys toeau a waliau gwyrdd. Amcangyfrifir bod gorchudd glas y ddinas oddeutu 13 y cant ar hyn o bryd, ond y nod yw cynyddu hwn i 26 y cant erbyn 2030. Ei nod yw helpu i gyflwyno:

- dinas wyrddach, gyda llai o wynebau caled, i helpu i greu canol dinas fwy atyniadol i fyw ynnddi ac sy'n fwy abl i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd;
- cynnwys mwy o natur er mwyn darparu lle i fywyd gwylt, rhoi pleser i bobl a chynnig gwell profiad i ymwelwyr a masnachwyr.
- canolfan fwy ffyniannus yn economaidd ar gyfer y rhanbarth yn y blynyddoedd i ddod, drwy annog gwelliannau isadeiledd gwyrdd wedi'u cynllunio'n strategol mewn datblygiadau newydd a phresennol.

Bydd yn helpu datblygwyr i wella canol y ddinas drwy ddod â natur i'w datblygiadau. Bydd hyn yn creu mannau y mae pobl am ymweld â hwy a bydd yn gwella lles, yr economi a'r amgylchedd.

Dywedodd Pennaeth Gweithrediadau De Cymru ar gyfer CNC "Rydym yn gyffrous bod y strategaeth hon wedi elwa o syniadau a chyngor arbenigwyr, a bod y gymuned leol wedi cael cyfle i ddweud eu dweud am y math o ddinas werdd y maent am ei gweld. Mae'r isadeiledd gwyrdd yn rhoi cyfle i Abertawe ddod â natur i ganol y ddinas ac ehangu ei hapêl i breswylwyr ac ymwelwyr. Bydd hyn yn arwain at amryfal fuddion,

megis hybu bioamrywiaeth a gwella cydnerthedd ar gyfer newid yn yr hinsawdd. Bydd y prosiect hwn yn rhoi'r cyfle i ni greu dinas fywiog sy'n gwella lles preswylwyr ac ymwelwyr, wrth greu cartref i fywyd gwyllt. Rydym wrth ein bodd i fod yn rhan o'r prosiect hwn ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'n partneriaid i ddod â'r syniadau hyn yn fyw. "

Mae prosiectau mawr eraill ar y gweill a bydd y strategaeth newydd yn arwain datblygwyr ar sut y gellir integreiddio natur yn eu dyluniadau.

Bydd y Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd yn ategu Fframwaith Adfywio Ardal Abertawe Ganolog y cyngor (SCARF), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Cyflawniadau isadeiledd Gwyrdd

- Mae digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid IG wedi cynnwys gweithdai ar gyfer y sectorau preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector. Sesiynau wedi'u targedu gydag adrannau allweddol y cyngor, partneriaethau presennol ac aelodau'r cyngor. **630+ o sgysiau wyneb yn wyneb** â'r cyhoedd.
- Datblygwyr eisoes yn defnyddio'r strategaeth IG cyn cyhoeddi – i'w hystyried ar gyfer cynlluniau'r dyfodol, a defnyddio'r 'Offeryn Ffactor Lle Gwyrdd'.
- Mae'r gwaith ar gyhoeddi 'Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd Ardal Ganolog Abertawe' yn symud ymlaen yn gyflym gyda stori wedi'i chyhoeddi yn BBC News <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-50303472>
- IG yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r arian grant Buddsoddi mewn Adfywio (e.e. wal/toeau gwyrdd) – mae'n debygol mai Swyddfa Bost Treforys fydd yr enghraifft gyntaf o fabwysiadu to gwyrdd. Mae wal werdd i fod yn rhan o faes parcio'r Arena.
- Gwnaed gwaith gyda grwpiau tai cymdeithasol Pobl a Coastal, gan ysgogi ymgysylltiad ehangach â'r staff, gwreiddio egwyddorion IG, cynnig cymorth a darparu cysylltiadau â rhwydwaith o gyngor arbenigol IG. Mae Coastal yn datblygu to gwyrdd yn ei brif swyddfa yng nghanol y ddinas ac mae Pobl wedi defnyddio IG fel thema allweddol yn eu prif gynlluniau adfywio ar gyfer eu stoc tai.
- Mae'r Ardal Gwella Busnes yn gweld IG fel ffordd o wella profiad ymwelwyr a masnachwyr. Mae cynigion eraill ar y gorwel, gan gynnwys gosod llochesi biniau bioamrywiol â thoeau gwyrdd.
- Mae'r prosiect *Cysylltu Isadeiledd Gwyrdd - De-Orllewin* a ariennir gan Lywodraeth Cymru, hefyd wedi darparu cymorth ar gyfer nifer o brosiectau isadeiledd gwyrdd megis rheoli cynefinoedd a gwelliannau mynediad mewn gwarchodfeydd natur a safleoedd bywyd gwyllt lleol.

Rhanddeiliaid/partneriaid isadeiledd gwyrdd sy'n rhan o'r gwaith - Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Cyngor Abertawe, Grŵp Prosiect y Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd, Green Infrastructure Consultancy.

Plannu coed trefol

Bu cynnydd mewn cynlluniau plannu coed ar draws Abertawe a drefnwyd gan sefydliadau a chymunedau amrywiol. Er bod hyn yn cael ei groesawu, mae'r tasglu Gweithio gyda Natur yn awyddus i sicrhau bod coed priodol yn cael eu plannu mewn lleoliadau priodol. Mae Fforwm Coed Abertawe, sydd newydd ei sefydlu, yn chwarae rôl allweddol yn hyn ac yn hwyluso cydweithredu rhwng grwpiau cymunedol, sefydliadau'r sector gwirfoddol a chyrff cyhoeddus.

Mae'r cam cyntaf i nodi safleoedd addas ar gyfer plannu coed ar dir Cyngor Abertawe wedi'i gynnal ac mae arian Glastir wedi'i sicrhau ar gyfer plannu pedwar safle.

Mae tua 150 o goed wedi'u plannu ar ymylon strydoedd yn ardal Penlan, Abertawe - a bydd 250 yn dilyn y flwyddyn nesaf. Bydd y coed newydd yn gwella edrychiad yr ardal a bydd o fudd mawr i fioamrywiaeth leol. Mae'r coed lled-aeddfed yn cynrychioli amrywiaeth eang o rywogaethau brodorol ac addurnol. Maent wedi cael eu dewis i fod yn addas ar gyfer yr ardal breswyl lle byddant yn sefyll. Gall preswylwyr lleol fwynhau'r ychwanegiadau newydd am genedlaethau i ddod.



Mae Cyngor Abertawe, Fforwm Coed Abertawe a Coed Cadw yn cydweithio ar gynllun i hybu bioamrywiaeth y ddinas.

Mae pobl ifanc wedi helpu i ailblannu coed mewn cymuned yn Abertawe ar ôl sawl achos o fandaliaeth lle rhwygwyd coed newydd eu plannu o'r ddaear. Mae'n anfon neges gadarnhaol i bobl ifanc eraill yn y ddinas y gallant gyfrannu at amgylchedd cymunedol gwyrddach a gwell.



Mae camau wedi'u cymryd i ddelio â choed ynn y mae clefyd coed ynn wedi effeithio arnynt - y clefyd ffwngaidd - a ganfuwyd am y tro cyntaf yn y DU yn 2012. Mae'r clefyd yn rhwystro coed ynn rhag amsugno dŵr felly dônt yn frau. Golyga hyn y gall coed aeddfed mwy o ran maint syrthio i'r llawr yn ddirybudd ac mae'n rhaid i ni sicrhau nad yw hyn yn digwydd. Wrth weithredu nawr, byddwn yn lleihau'r risg o goed sydd wedi'u heintio'n syrthio ar bobl, eiddo, llinellau pŵer a ffyrdd. Hyd yn hyn, mae tua 3,000 o goed ynn sydd ar dir cyhoeddus wedi'u harolygu, ac mae nifer ohonynt yn dangos

arwyddion amrywiol o glefyd coed ynni.

Cynhaliodd Fforwm Coed Abertawe a Fforwm Amgylcheddol Abertawe drafodaethau a gweithdy ymgynghori gyda phrosiect Orchard, elusen genedlaethol yn Llundain, ynghylch ehangu eu gwaith i Abertawe. Mae cyllid bellach wedi'i sicrhau a bydd dau swyddog prosiect rhan amser yng Nghanolfan yr Amgylchedd o wanwyn 2020.

Rhanddeiliaid/partneriaid Plannu Coed Trefol sy'n rhan o'r gwaith - Cyngor Abertawe, Cyfoeth Naturiol Cymru, BIPBA, Coed Cymru, Fforwm Coed Abertawe, Coed Cadw, Fforwm Amgylcheddol Abertawe.

Mannau gwyrdd

Mae parciau a manau gwyrdd o ansawdd uchel yn bwysig i'n cymunedau, ein hiechyd a'n lles, ein natur a'r economi. Rydym am annog pawb i archwilio'u hardaloedd lleol a manteisio i'r eithaf ar yr hyn sydd gennym ar garreg ein drws.

- Llwyddodd Tîm Cadwraeth Natur y cyngor, gyda chyllid gan CNC, i gyflawni prosiect (Ein natur, Ein dyfodol) a oedd yn annog 20 o ysgolion cynradd lleol i gysylltu â'u safleoedd bywyd gwylt lleol a gwneud defnydd gwell ohonynt a galluogi i gynlluniau gael eu paratoi ar gyfer pob ysgol er mwyn gwella'u tir ar gyfer bioamrywiaeth.

Mae prosiect Mannau Gwyrdd Cymunedol Abertawe, menter bartneriaeth a reolir gan Fforwm Amgylcheddol Abertawe, yn cefnogi dinasyddion a chymunedau i ymwneud yn fwy â rheoli a defnyddio manau gwyrdd lleol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r prosiect wedi cefnogi llawer o fentrau newydd a phresennol ar safleoedd ledled y ddinas a'r sir.

Un cyflawniad allweddol oedd sefydlu prosiect tyfu cymunedol yng Nghlydach, a leolwyd rhwng y ganolfan gymunedol a'r feddygfa, sydd wedi dod yn ganolbwynt cymunedol arobryn sy'n darparu buddion cymdeithasol ac iechyd meddwl i bobl ddiamddiffyn ac yn darparu ar gyfer y banc bwyd lleol.

Mae Prosiect Mannau Gwyrdd Cymunedol Abertawe hefyd wedi cyfrannu at fentrau plannu coed lleol a'u cefnogi ac mae hefyd wedi gweithio'n agos gyda Fforwm Coed Abertawe a Rhwydwaith Tyfu Cymunedol Abertawe i annog cydweithio a rhwydweithio.

Rhanddeiliaid/partneriaid Mannau Gwyrdd sy'n rhan o'r gwaith - Fforwm Amgylcheddol Abertawe, Cyngor Abertawe (Tîm Cadwraeth Natur), Cyfoeth Naturiol Cymru, Prosiect Mannau Gwyrdd Cymunedol Abertawe, Canolfan yr Amgylchedd, Rhwydwaith Tyfu Cymunedol Abertawe, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe.

Gwasanaethau ecosystem/adfer natur

Gwnaed llai o gynnydd yn yr agweddau penodol hyn ar gynllun gweithredu Gweithio gyda Natur yn ystod 2019/20 wrth i'r ffocws a'r egni gael eu cyfeirio at feysydd eraill - er y cydnabyddir hefyd fod y gwaith a wneir gydag isadeiledd gwyrdd, plannu coed trefol a manau gwyrdd i gyd yn cyfrannu at well ddealltwriaeth a defnydd o wasanaethau ecosystem a gallant gael dylanwad sylweddol ar adferiad natur.

Bydd mwy o ffocws ar yr adran hon o'r cynllun gweithredu yn y flwyddyn i ddod gan fod Cyngor Abertawe yn recriwtio swyddog bioamrywiaeth a fydd yn cynorthwyo Partneriaeth Natur Leol Abertawe i ddatblygu Cynllun Adfer Natur Lleol a bydd partneriaid Gweithio gyda Natur yn archwilio ffyrdd o gefnogi a hyrwyddo prosiectau peillio.

Rhanddeiliaid/partneriaid Adfer Natur sy'n rhan o'r gwaith -Partneriaeth Natur Leol Abertawe, Cyngor Abertawe, Cyfoeth Naturiol Cymru, Prifysgol Abertawe

Lleihau carbon

Datganodd Cyngor Abertawe 'argyfwng hinsawdd' ym mis Gorffennaf 2019 ac mae wedi cymryd nifer o gamau i ymateb i hyn, gan gynnwys drafftio Siarter Newid yn yr Hinsawdd i amlinellu ei ymrwymiad ac i annog partneriaid i gofrestru; datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r hinsawdd ar draws ei holl swyddogaethau a gwasanaethau; a datblygu rhaglen ymgysylltu â rhanddeiliaid, gyda chymorth gan Fforwm Amgylcheddol Abertawe.

Cytunodd Fforwm Amgylcheddol Abertawe hefyd y bydd yn canolbwyntio ar gynorthwyo partneriaid a chymunedau i weithredu ar adfer yr hinsawdd a natur. Mae trafodaethau'n parhau rhwng Cyngor Abertawe, Fforwm Amgylcheddol Abertawe, VocalEyes a phartneriaid eraill ynghylch y ffordd orau o ennyn diddordeb cymunedau a rhanddeiliaid yn yr agenda hinsawdd.

Cynhaliwyd trafodaethau helaeth rhwng y ganolfan Un Blaned, FfEY, Cyngor Abertawe a phartneriaid eraill ynghylch dulliau o fesur effaith gweithredoedd i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Cynhaliwyd cynllun peilot gyda CDG Abertawe i ail-lunio sut mae'r rhaglen ariannu yn cefnogi mentrau cymdeithasol, cefn gwlad a chymunedau mewn ardaloedd gwledig gan ddefnyddio egwyddorion 'Un Blaned'.

Mae tasglu Gweithio gyda Natur hefyd wedi bod yn cysylltu â gweithgorau'r BGC yng ngorllewin Cymru am y gwaith y maent yn ei wneud mewn perthynas â rheoli ac addasu risgiau yn yr hinsawdd.

Mae **Bae Abertawe Carbon Isel** (BACI) yn parhau i fod yn rhwydwaith allweddol ar gyfer annog a chefnogi sefydliadau ar draws y rhanbarth i leihau eu defnydd o ynni a'u hól troed carbon drwy rannu gwybodaeth a chydweithredu.

Ym mis Gorffennaf 2019, daeth aelodau BACI ynghyd i rannu gwybodaeth a thrafod y pwnc Cartrefi Gwyrddach, gyda chyflwyniadau gan y prosiect Down to Earth (a gynhaliodd y digwyddiad ar eu safle anhygoel ym Mryn Gwyn), Coastal Housing, Cyngor Abertawe, Prifysgol Caerdydd, Pobl a Sero Homes. Dilynwyd hyn ym mis Tachwedd gydag ymweliad safle â'r datblygiad Cartrefi Gweithredol yng Nghastell-nedd. Trefnwyd ymweliad safle pellach â phrosiect ôl-osod Cyngor Abertawe yng Nghraig-cefn-parc ar gyfer Mawrth 2020 ond cafodd ei ohirio oherwydd argyfwng Coronafeirws.

Ym mis Medi 2019, cydweithiodd BACI â 4theRegion a'r rhaglen Flexis i gynnal digwyddiad rhanbarthol a oedd yn canolbwyntio ar *ynni adnewyddadwy* a oedd yn

cynnwys nifer o ddiweddariadau prosiect a oedd yn ymwneud ag ynni adnewyddadwy, ynni, lleihau carbon a newid yn yr hinsawdd, a thrafodaethau bord gron ar y newidiadau sylweddol y mae eu hangen i wneud mwy o ddefnydd o ynni adnewyddadwy a lleihau allyriadau carbon.

Daeth grŵp Cerbydau Trydan Bae Abertawe yn fwy weithredol eto yn 2019, gyda nifer dda yn bresennol a chyfarfodydd bywiog ym mis Mai (a gynhaliwyd yn Neuadd y Ddinas Abertawe), Gorffennaf (Riversimple, Llandrindod), Hydref (Parc Gwledig Craig-y-nos) ac Ionawr 2020 (DVLA). Newidiodd y grŵp ei enw i dasglu ULEV Bae Abertawe (cerbydau ag allyriadau isel iawn) i adlewyrchu ei gwmpas ehangach y tu hwnt i gerbydau trydan yn unig. Cyfarfu grŵp Cynllunio Teithio Cynaliadwy Bae Abertawe hefyd ar sawl achlysur, gan ddod â phartneriaid ynghyd i rannu gwybodaeth, syniadau ac anogaeth tuag at arferion teithio mwy cynaliadwy i staff, myfyrwyr, cleientiaid a chwsmeriaid.

Cynhaliodd BACI ddigwyddiad ar *Deithio a Thrafnidiaeth* ym mis Ionawr a oedd yn cynnwys cyflwyniad gan Tom Porter o lechyd Cyhoeddus Cymru ar y model Siarter Teithio Iach a ddatblygwyd ar gyfer Caerdydd. Mae BACI a phartneriaid yn gobeithio gweithio gydag lechyd Cyhoeddus Cymru ar ddull tebyg yn Abertawe a/neu ranbarth y de-orllewin. Cynigiwyd trafndiaeth a theithio hefyd fel ffocws allweddol yn 2020 ar gyfer Fforwm Amgylcheddol Abertawe a'i bartneriaid fel rhan o'u rhaglen gweithredu ar yr hinsawdd.

Partneriaid/Rhanddeiliaid Lleihau allyriadau carbon sy'n rhan o'r gwaith - Fforwm Amgylcheddol Abertawe, Cyngor Abertawe, Rhwydwaith Carbon Isel Bae Abertawe.

Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Mae'r Tasglu Gweithio gyda Natur yn cydnabod pwysigrwydd cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o heriau amgylcheddol megis y dirywiad mewn bioamrywiaeth a newid yn yr hinsawdd, a rhannu gwybodaeth am y cyfleoedd a'r adnoddau sydd ar gael i sefydliadau, cymunedau ac unigolion i'w helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn, megis mynediad i arbenigedd, hyfforddiant, pecynnau cymorth a ffynonellau cyllid a all gefnogi camau gweithredu ymarferol.

Yn 2019, cydweithiodd Fforwm Amgylcheddol Abertawe a Chanolfan yr Amgylchedd i drefnu rhaglen o ddigwyddiadau, gyda chyllid gan Cyfoeth Naturiol Cymru a chefnogaeth gan lawer o bartneriaid Gweithio gyda Natur. Roedd y rhain yn cynnwys cyfres o sgysiau cyhoeddus poblogaidd gyda'r nos a thrafodaethau ar sawl mater a oedd yn gysylltiedig ag agenda Gweithio gyda Natur:

- Ymagwedd Abertawe Un Blaned ym mis Mai gyda David Thorpe, Canolfan Un Blaned.
- Digwyddiad *Teithio Llesol a Newid yn yr Hinsawdd* ym mis Mehefin a drefnwyd gyda grŵp ymgyrchu beiciau Wheelrights a oedd yn cynnwys Lee Waters AC.

- *Abertawe Dim Gwastraff* yn cynnwys diweddariadau gan bennaeth rheoli gwastraff Cyngor Abertawe a nifer o brosiectau ailgylchu, atgyweirio a gwastraff cymunedol.
- *Adfywio'n Dinas er Lles a Bywyd Gwylt* fel rhan o CCB y FfEY ym mis Tachwedd, gyda'r wybodaeth ddiweddaraf gan Gyngor Abertawe a swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru am y Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd newydd ar gyfer Abertawe Ganolog.

Y digwyddiad mwyaf oedd cynhadledd undydd ym mis Mai 2019 a oedd yn cynnwys dros 60 o gynrychiolwyr o ystod eang o sefydliadau partner ac unigolion. Roedd cynhadledd *SMART NATURE: Gweithio gyda Natur a gynhaliwyd yn Abertawe* yn canolbwyntio ar themâu o gynllun gweithredu Gweithio gyda Natur ac roedd yn cynnwys prif gyflwyniadau gan Paul Allen o fenter Prydain Ddi-garbon a'r tîm Green Infrastructure Consultancy. Cafwyd trafodaethau gweithdy wedi'u hwyluso ar faterion allweddol ac ar amcanion lles eraill Abertawe. Roedd yr adborth o'r digwyddiad yn gadarnhaol iawn a chasglwyd nifer mawr o syniadau o'r sesiynau gweithdy.

Dechreuodd ail raglen o sgysiaid cyhoeddus gyda'r hwyr ym mis Chwefror 2020, gyda sesiwn ar *Fasnach Deg a'r Argyfwng Hinsawdd* wedi'i threfnu mewn cydweithrediad â Fforwm Masnach Deg Abertawe i lansio pythefnos Masnach Deg a oedd yn cynnwys cyflwyniad gan Brif Weithredwr Traidcraft. Gohiriwyd digwyddiadau eraill oherwydd y pandemig.

Ar ddechrau 2020, cydweithiodd Fforwm Amgylcheddol Abertawe hefyd â VocalEyes ac eraill i gychwyn prosiect i gynllunio adnodd ar-lein newydd, hawdd ei ddefnyddio, a fydd yn hyrwyddo atebion profedig, addasadwy y mae modd eu copïo ar gyfer gweithredu o ran yr hinsawdd ac adfer natur. I ddechrau, bydd hyn yn cynnwys cyflogi ymchwilwyr i gasglu gwybodaeth am brosiectau a pholisïau arfer gorau ac adnoddau ategol, a llunio templedi prosiect. Bydd cam arall o'r fenter yn cynnwys ymgysylltu â chymunedau a buddiolwyr eraill drwy drefnwyr a rhwydweithiau cymunedol i sicrhau bod yr adnodd yn cael ei ddefnyddio a'i ddatblygu.

Rhanddeiliaid/partneriaid Gwybodaeth a Dealltwriaeth sy'n rhan o'r gwaith - Fforwm Amgylcheddol Abertawe, Canolfan yr Amgylchedd, Cyngor Abertawe, Prifysgol Abertawe, Rhwydwaith Carbon Isel Bae Abertawe, VocalEyes, Cyfoeth Naturiol Cymru.

Heriau/rhwysterau

- Dim digon o gyfathrebu rhwng y BGC a'r grŵp Gweithio gyda Natur.

Gwaith yn y dyfodol

Bydd y tasglu Gweithio gyda Natur yn adolygu allbynnau'r gynhadledd Smart Nature, yn rhannu'r cynnydd ar y cynllun gweithredu ac yn cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer 2020/21, gyda ffocws arbennig ar ymateb i argyfwng COVID-19.

Bydd y camau gweithredu a'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys y canlynol:

- Parhau â gwaith y Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd - ymgynghori a hyfforddi. Bwriedir cynnal digwyddiad datblygu sgiliau a gwybodaeth isadeiledd gwyrdd yn ddiweddarach eleni.
- Mae gwaith ymgysylltu helaeth â'r gymuned wedi digwydd eisoes ac roedd yn cynnwys sesiynau dros dro yng nghanol y ddinas a gweithgarwch ar gyfryngau cymdeithasol ond mae angen i ni barhau â'r gwaith hwn a gellir defnyddio unrhyw adborth a gesglir yn y dyfodol i sicrhau bod hwn yn offeryn defnyddiol ar gyfer gwella'r isadeiledd gwyrdd y byddwn yn ei weld yn natblygiadau'r dyfodol.
- Parhau i fapio gwasanaethau ecosystemau
- Adolygu dulliau o blannu coed mewn ardaloedd trefol.
- Cefnogi Cyngor Abertawe i ddatblygu Polisi Tegwch Gwyrdd, y gallai sefydliadau partner ei efelychu.
- Sicrhau bod gwaith parhaus yn ystyried datganiad ardal ar gyfer de-orllewin Cymru.
- Datblygu'r cynllun gweithredu Gweithio gyda Natur i ystyried y datganiadau brys o ran yr hinsawdd a natur a'r cyfleoedd ar gyfer 'adferiad gwyrdd' yn dilyn argyfwng COVID-19, gan gynnwys mynd i'r afael â materion teithio a thrafnidiaeth fel ffocws allweddol ar gyfer 2020/21.

Cymunedau cryf



Adeiladu cymunedau cryfach a chanddynt ymdeimlad o falchder a pherthyn.

Arweinydd – Cydlynir y gwaith hwn gan grŵp llywio Cymunedau Cryf ac fe'i harweinig gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Partneriaid/rhanddeiliaid sy'n rhan o'r gwaith

Coastal	Pobl	CGGA	Tai Teuluoedd
Iechyd Cyhoeddus Cymru	Clase 4 All	Cyngor - Cydlynwyr Ardaloedd Lleol	Adfywio Cyngor Abertawe
Partneriaeth Ddysgu Abertawe	Fforwm Partneriaeth Tlodi	Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (RPB);	Staff Caffael Asiantaethau Partner

Rhwydweithiau Clwstwr Meddygon Teulu	Tai a landlordiaid cymdeithasol	Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gorllewin Morgannwg	Y Tu Hwnt i Frics a Morter
Heddlu De Cymru	Dinas Noddfa Abertawe ac eraill sy'n cefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches (EYST ac eraill)	Cyngor Abertawe, Grŵp Llywio Cydlyniant Cymunedol (sy'n dod o dan Bartneriaeth Abertawe Mwy Diogel);	Grŵp Llywio Dinas Diwylliant Abertawe
Menter Iaith Abertawe	Merched y Wawr	Rhwydwaith Cydgynhyrchu	Grŵp Dinas Hawliau Dynol
Cymorth i Fenywod/Ymarferwyr Trais Domestig Amlasiantaeth	Rhwydwaith Rhanbarthol Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig	Grŵp Cydlyniant Cymunedol	

Trosolwg o'r gwaith o fewn Cymunedau Cryf

CGGA oedd yn arwain yr amcan Cymunedau Cryf yn wreiddiol. Ers y trefniadau llywodraethu newydd, mae'r amcan hwn bellach wedi'i neilltuo i Wasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Ers sefydlu'r trefniant newydd hwn, gwnaed cynnydd ar adolygiad llawn o'r cynllun gweithredu bwriadedig. Mae'r adolygiad wedi cynnwys nodi camau gweithredu sydd bellach wedi'u cwblhau, y rheini sy'n mynd rhagddynt a champau newydd y mae angen eu cynnwys wrth symud ymlaen.

Mae nifer o gyfarfodydd wedi'u cynnal rhwng yr arweinydd blaenorol a'r un newydd, a nodwyd grŵp rhanddeiliaid strategol newydd. Datblygwyd y grŵp hwn i sicrhau ei fod yn cynnwys partneriaid sy'n gallu adlewyrchu gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r rhaglen drawsnewid gan fod llawer o gysylltiadau agos a nodau cyffredin, sydd â chysylltiadau â nifer o gamau gweithredu o fewn y ffrwd waith.

Mae'r aelodaeth grŵp hon yn galluogi rhannu gwybodaeth a chydweithio ar draws amcanion eraill y BGC a rhwng asiantaethau ac adrannau eraill. Bydd pob cyfarfod yn y dyfodol yn cael ei gysoni â chyfarfodydd y BPRh.

Heriau/rhwystrau

- Dod â'r holl randdeiliaid ynghyd i sicrhau cynrychiolaeth briodol.
- Sicrhau bod llwyddiant o wahanol bartneriaethau yn cael ei gyfleu'n effeithiol
- Gallu llwyth gwaith partneriaid

Partneriaid/rhanddeiliaid sy'n rhan o'r gwaith - y partneriaethau allweddol yw Partneriaeth Tlodi Abertawe, Adfywio Abertawe, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol

Abertawe, Bwrdd Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. * Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr. Mae grwpiau eraill heblaw am y rhain sy'n edrych ar faterion lleol ac yn datblygu datrysiadau sy'n seiliedig ar asedau.

Cyflawniadau

Erbyn hyn mae rhagor o gydlynwyr ardaloedd lleol yn gweithio mewn cymunedau ar draws ein dinas yn cerdded wrth ymyl pobl o bob oed, gan eu helpu i ddarganfod bywyd da, i ddod yn hyderus ac yn gryfach, i ddatblygu eu cryfderau eu hunain a'u helpu i osgoi'r angen i droi at wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae gan Gydlynwyr Ardaloedd Lleol (CALI) frîff ataliol eang sy'n cynnwys cadw llygad ar bobl a allai fod yn unig ac yn ynysig a'u helpu i gysylltu ag eraill fel y gallant fyw bywydau cryfach, iachach a mwy annibynnol a gweithgar, a'u helpu i ddod o hyd i ffyrdd ymarferol o wneud y pethau maen nhw am eu gwneud neu y mae angen iddynt eu gwneud a datblygu rhwydweithiau personol a lleol fel bod pobl yn teimlo'n rhan o'u cymunedau ac yn gysylltiedig â nhw.

Rydym yn gweithio tuag at economi ffyniannus lle mae aelwydydd yn cyflawni'r isafswm incwm ofynnol o leiaf drwy ddatblygu un dull gwasanaeth cyhoeddus. Mae hyn yn hyrwyddo ac yn annog pob busnes ac asiantaeth i dalu'r cyflog byw drwy'r Addewid Cyflog Byw ac archwilio ffyrdd o gynnwys gofynion cyflog byw wrth gaffael a rhoi grantiau – gan annog pob partner BGC i ymgorffori hyn yn eu hamodau a'u telerau eu hunain wrth ddsbarthu cyllid i eraill.

Rydym oll yn ymrwymedig i drechu tlodi - mae'n effeithio ar bobl, teuluoedd a chymunedau ar draws Abertawe. Mae trechu tlodi yn gyfrifoldeb i bawb ac rydym yn gweithio gydag ystod eang o sefydliadau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol, gan ein bod yn cydnabod na allwn wneud hyn ar ein pennau ein hunain. Ymhlith y mentrau mae Abertawe'n Gweithio, sy'n helpu pobl i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth a goresgyn rhwystrau sy'n gysylltiedig â thai, arian a sgiliau. Mae Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes Abertawe yn darparu cyfleoedd dysgu hygyrch sy'n cynorthwyo pobl i wella sgiliau ac ennill achrediad yn ogystal â lleihau unigedd cymdeithasol. Mae ystod eang o gyrsiau ar gael, o sgiliau hanfodol megis rhifedd, llythrennedd a sgiliau digidol, i'r gitâr, ieithoedd a ffotograffiaeth. Fel rhan o'r Strategaeth Trechu Tlodi, bydd y cyngor a sefydliadau partner yn cefnogi amrywiaeth o fentrau er mwyn mynd i'r afael â materion megis newyn gwyliau, benthyca llog uchel, hawliadau, tenantiaethau, lles a chyfleoedd bywyd.

Yn dilyn gwahoddiad i rannu'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw, dywedodd y bobl sy'n byw yn ardal Mount Pleasant y byddai'n dda cael rhywle i gwrdd â chymdogion, gwneud ffrindiau newydd a chymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau. Nawr mae gan grŵp o wirfoddolwyr ganolfan a enwyd *Hub on the Hill* ac mae'n dod yn ganolbwynt gweithgareddau ar gyfer y gymuned leol.

Cymdeithas tai yn Abertawe, sef Coastal, sy'n darparu'r llety, gan dalu am y rhent a chostau cyfleustodau ac mae cydlynnydd Ardal Leol Abertawe yn helpu i gyflwyno pobl ond y preswylwyr sydd wedi gyrru'r prosiect yn ei flaen ac wedi troi'r hwb yn lle bywiog

a chroesawgar fel y mae heddiw. Gall preswylwyr ddefnyddio a threfnu'r lle fel y dymunant ac mae'r ganolfan yn datblygu'n gyflym i fod yn ganolbwynt yn y gymuned.

Mae llawer o wahanol grwpiau a digwyddiadau cymdeithasol bellach yn gweithredu o'r ganolfan gyda gweithgareddau sy'n denu pobl o bob oed. Ers iddo agor ym mis Mawrth 2018, mae'r ganolfan wedi cynnal dros 150 o wahanol weithgareddau, grwpiau a digwyddiadau. Mae hefyd yn cael ei ddefnyddio gan bartneriaid eraill megis Heddlu De Cymru sy'n cynnal digwyddiadau Paned gyda Phlismon yno fel y gall preswylwyr gadw mewn cysylltiad a rhoi gwybod am unrhyw bryderon.

Dywedodd Coastal fod y syniad o *Hub on the Hill* yn cyd-fynd yn union â'i weledigaeth o ddarparu cartrefi a gwasanaethau a oedd yn galluogi i'w denantiaid a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu i ffynnu.

Mae *Hub on the Hill* wedi rhoi ychydig o obaith i bobl leol. Maent yn teimlo bellach fod ganddynt ganolfan, cysylltiad i wneud ffrindiau a chymryd rhan yn yr hyn sy'n digwydd o fewn eu cymuned er mwyn iddynt deimlo ymdeimlad o falchder a pherthyn. Mae'r ganolfan hefyd yn enghraifft wych o'r ffordd y mae cynllun Cydlynu Ardaloedd Lleol Cyngor Abertawe, a ariennir yn rhannol gan Coastal Housing, yn cefnogi pobl i greu eu fersiwn eu hunain o fywyd da, aros yn gryf ac yn gysylltiedig a theimlo'n fwy diogel a hyderus yn eu dyfodol.

Rydym hefyd yn anelu at ddefnyddio egwyddorion dinas ryngddiwylliannol i hyrwyddo'r amrywiaeth o ddiwylliannau ac ieithoedd o fewn Abertawe, drwy rannu a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd gennym. Mae darpariaeth iaith gymunedol yn cael ei harchwilio ar draws asiantaethau fel y gallwn ddeall ble mae'r pwyntiau mynediad ar gyfer darpariaeth iaith yn bodoli. Rydym yn ceisio cytundeb i rannu adnoddau er budd dinasyddion a hyrwyddo pwyntiau mynediad cyffredin i iaith.

Mae Men's Shed Blaen-y-maes yn cynnig man cyfarfod ar gyfer cyfeillgarwch i leihau unigrwydd ac arwahanrwydd ymysg dynion o bob cefndir yn ardal Penderi. Mae'n cynllunio gweithgareddau a phrosiectau grŵp i gadw ei aelodau'n weithredol ac i fod o fudd i'r gymuned ehangach. Mae'n amgylchedd diogel i'r rheini sy'n chwilio am ychydig o gwmni a/neu i ddysgu sgiliau newydd. Mae'r grŵp wedi helpu pobl yn y gymuned gyda phrosiectau DIY ac maent yn bwriadu rhoi'r cynnyrch y maent yn ei dyfu i gynlluniau bwyd cymunedol.

Mae'n un o rwydwaith cynyddol o Men's Sheds ledled Abertawe sy'n cael eu cefnogi gan Gyngor Abertawe sy'n buddsoddi cymorth ariannol i'w ddatblygiad.

Meddai'r Cynghorydd Alyson Pugh, Aelod y Cabinet dros Gymunedau Gwell, "Mae Men's Sheds yn cael effaith gadarnhaol iawn ar iechyd a lles ac wrth leihau arwahanrwydd cymdeithasol drwy ddefnyddio'r cyfoeth o sgiliau a phrofiad sy'n bodoli yn ein cymunedau. I gydnabod yr effaith sylweddol y gallant ei chael, mae Cyngor Abertawe'n cynnig cefnogaeth ariannol tuag at eu datblygiad yn y dyfodol."

Bydd Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel yn ceisio cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth gyflwyno a chyflawni amcanion a blaenoriaethau strategol. Mae'n darparu arweinyddiaeth ar gyfer strategaeth Abertawe Mwy Diogel ac mae'n cydgysylltu â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau ar gyllid a strategaeth.

Mae aelodaeth y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr allweddol o bartneriaid statudol a sefydliadau eraill sydd â diddordeb mewn materion diogelwch cymunedol ac sy'n dylanwadu arnynt. Maent yn ymrwymedig i weithio gyda'i gilydd, gan adeiladu ar y llwyddiant dros y blynyddoedd diwethaf a sicrhau bod Abertawe yn parhau i fod yn lle diogel i fyw, gweithio ac ymweld ag ef. Mae sefydliadau o'r fath yn cynnwys;

- Awdurdod Lleol – arweinwyr maes gwasanaeth allweddol lle bo'n briodol
- Heddlu De Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Sefydliadau 3ydd sector h.y. Barod; Wallich Cymorth i Fenywod; Dyfodol Gofal
- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol y Drindod Dewi Sant
- Heddlu Trafnidiaeth Prydain
- Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Gwasanaeth Prawf/Ieuencid
- Canolfan Waith Abertawe (Yr Adran Gwaith a Phensiynau),
- BID
- Cynrychiolaeth gymunedol enwebedig
- Dirprwy Arweinydd/Cynghorwyr Ward

Mae eisoes gan bartneriaid yn Abertawe enw da hen sefydledig am gyflwyno mentrau llwyddiannus a pherthnasoedd gwaith cadarnhaol a chynhyrchiol sy'n darparu llwyfan cadarn ar gyfer mwy o lwyddiant wrth gyflwyno nodau ac amcanion y bartneriaeth. Mae angen i ni weithio gyda'n gilydd yn fwy effeithiol ac effeithlon, i ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael i ni yn ein cymunedau, ac i adeiladu cymunedau cadarnhaol, cryf a chadarn lle caiff y bobl fwyaf diamddiffyn eu cefnogi a'u diogelu.

Roedd Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel yn cydnabod bod problemau'n gysylltiedig â'n Stryd Fawr a'r dasg oedd sefydlu tasglu Tasg a Gorffen ar gyfer digwyddiadau tyngedfennol i lunio cynllun gweithredu i ymdrin â materion sy'n ymwneud â gwaith rhyw, camddefnyddio sylweddau, gweithgarwch troseddol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a sut i wella'r amgylchedd byw a gweithio. Nid yw'r materion sy'n effeithio ar y Stryd Fawr a'r ardal gyfagos yn anghyffredin i'r rheini sy'n effeithio ar lawer o'n cymunedau.

Er mwyn mynd i'r afael â phryderon a materion a nodwyd drwy gyfarfod cwmpasu ar y cyd, crynhowyd y ffyrddau gwaith a nodwyd mewn rhai meysydd allweddol.

- Troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol (dan arweiniad Heddlu De Cymru)

- Gweithgarwch camddefnyddio sylweddau, delio cyffuriau a llinellau sirol (dan arweiniad Barod)
- Gweithwyr rhyw ar y stryd a manteisio ar bobl ddiamddiffyn (dan arweiniad Cymorth i Fenywod)
- Mannau cyhoeddus (dan arweiniad y Cyngor)

Byddant yn cyflawni ac yn datblygu camau gweithredu penodol i reoli risgiau, yn nodi bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir ac yn gwella lles. Y peth pwysig oedd sut yr ydym yn mynd i'r afael â'r mater ei hun drwy gydweithio ac mae'n gam tuag at gyflawni'r nod.

Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned mewn ardaloedd preswyl o amgylch y Stryd Fawr. Ymagwedd bartneriaeth amlasiantaeth oedd hon a oedd yn cynnwys curo ar ddrwsau a chael sgysiau â phreswylwyr.

Cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid/partneriaid, preswylwyr a busnesau ym mis Gorffennaf y llynedd. Roedd hwn yn gyfle i rannu pa waith sydd eisoes yn cael ei wneud ar y Stryd Fawr a cheisio barn preswylwyr/busnesau ar sut i wella'r amgylchedd a lles. Roedd yr ymateb yn gadarnhaol a'r farn oedd bod y digwyddiadau'n llwyddiannus. Bydd rhagor yn cael eu cynllunio yn y dyfodol.

Caiff y Grŵp Digwyddiadau Tyngedfennol ei lywodraethu'n glir gan Bartneriaeth Abertawe Mwy Diogel ac yna'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Caiff pob gohebiaeth ei sianelu drwy Bartneriaeth Abertawe Mwy Diogel (mae pob partner wedi'i gofrestru gyda Heddlu De Cymru) ac mae'r holl waith yn cael ei frandio dan Bartneriaeth Abertawe Mwy Diogel.

Ein ffyrdd o weithio



Cyfranogaeth

Oherwydd y newidiadau a wnaed wrth adolygu'r llywodraethu, mae'r Fforwm Partneriaeth bellach wedi agor amrywiaeth ehangach o gynrychiolaeth h.y. elusennau, grwpiau cymunedol a mewnbwn cyhoeddus. Daeth dros 60 o unigolion i'r Fforwm Partneriaeth a gynhaliwyd gennym ym mis Hydref 2019. Cafwyd nifer o siaradwyr gwadd ac roedd un ohonynt o Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd hwn yn gyfle gwirioneddol i gynnwys pawb yn y gwaith wrth fynd ymlaen. Cynhelir y fforymau hyn bob 6 mis. Rydym hefyd yn cynnal cyfarfodydd Cydbwyllgor y BGC yn gyhoeddus ac rydym yn annog cwestiynau gan y cyhoedd.



Cydweithio

Eleni mae BGC Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot wedi cydweithio i wella system y blynyddoedd cynnar i deuluoedd â phlant, o feichiogrwydd tan 7 oed. Hyd yn hyn, mae'r rhaglen Fraenaru wedi mapio'r holl wasanaethau perthnasol sy'n cynnwys iechyd, cefnogaeth i deuluoedd, dysgu a chwarae, ac mae wedi ymgynghori

â gweithwyr proffesiynol ynghylch cyfleoedd posib i integreiddio rhai agweddau ar y rhaglen fraenaru fel y gall teuluoedd symud drwy wasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion yn ddi-drafferth.

Cam nesaf y broses yw ymgysylltu â theuluoedd a chael gwell mewnwelediad i'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw, a phrofi ffyrdd newydd o weithio'n lleol. Bydd cynlluniau peilot llwyddiannus yn llywio'r ffordd y caiff gwasanaethau eu cynllunio yn y dyfodol, a chânt eu hyrwyddo ar draws Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

Mae nifer o weithgareddau wedi'u cynnal ar y cyd â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

Roedd y rhain yn cynnwys:



Hyfforddiant ar y cyd ar gyfer awduron adroddiadau mewn dulliau Adrodd Straeon Digidol; fel ffordd o gyfleu gwybodaeth y tu hwnt i'r fformat traddodiadol. Mae'r ddau BGC wedi elwa o'r hyfforddiant adrodd straeon digidol/hyfforddiant Saesneg clir ac maent yn rhoi'r wybodaeth ar waith wrth ysgrifennu adroddiadau.

Cyn cychwyniad COVID-19, trefnwyd sesiwn hyfforddi model rhesymeg ar y cyd/theori newid ar gyfer cynrychiolwyr o bob un o'r gweithgorau Amcan o fyrdau BGC Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Bydd hyn yn rhoi dull cyson i'r partneriaid gofnodi ac asesu effaith eu ffrydiau gwaith. Yn anffodus, mae hyn wedi'i ohirio nes ein bod mewn sefyllfa i drefnu cynulladau mawr.

Mae cyfarfodydd rhwng cydlynwyr y BGC a rhwng y swyddogion arweiniol hefyd wedi nodi rhai themâu cyffredin a gaiff eu harchwilio yn ystod y deuddeng mis nesaf:

- mabwysiadu dull cyson o fapio asedau;
- rhannu gwybodaeth;
- dadansoddi data;
- arfarnu;
- datblygu dulliau newydd o ymgysylltu megis defnyddio'r hyfforddiant a dderbyniwyd ar straeon digidol; chwilio am ffyrdd o ddiweddarau'r gwefannau a hyrwyddo gwaith da'r BGC
- datblygu'r gweithlu (gwneud i bob cyswllt gyfrif).

Enghraifft dda iawn arall o brosiect a gynlluniwyd gyda chydweithrediad mewn golwg yw'r gwaith a wnaed ar ddatblygu Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd canol y ddinas yn ardal Abertawe Ganolog. Mae hwn yn brosiect ar y cyd rhwng y cyngor a Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio'r isadeiledd gwyrdd i wella lles amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol preswylwyr ac ymwelwyr.



Dyma gyfrosodiad o luniau o'r gwaith ymgysylltu a wnaethom ar gyfer Adfywio'n Dinas er Lles a Bywyd Gwylt, sef un o'r amcanion gweithredu. Roedd y gwaith ymgysylltu'n cynnwys cynnal 630+ o sgysiau wyneb yn wyneb ag aelodau'r cyhoedd ynghylch ardal Abertawe Ganolog gan ofyn y cwestiwn 'beth mae natur yn y ddinas yn ei olygu i chi?'. Cafwyd sesiynau gyda'r 4 ysgol gynradd yn y dalgylch, grŵp diddordeb

lleol a grŵp o breswylwyr a chynhaliwyd nifer o weithdai a sesiynau gydag ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys aelodau'r BGC.



Integreiddio

Cytunwyd trefnu cyfarfodydd mwy rheolaidd rhwng cydlynwyr a swyddogion arweiniol yn 2020-21. Mae hyn eisoes wedi dechrau gyda'r arweinwyr strategol ar gyfer pob amcan yn cyfarfod yn bersonol (neu drwy Skype) cyn pob un o gyfarfodydd Cyd-bwyllgor y BGC felly mae cynnydd yn cael ei gynnal ac nid yw'n cael ei golli rhwng pob mis. Cytunwyd hefyd y dylid annog partneriaid i adlewyrchu amcanion llesiant lleol y BGC mewn cynlluniau lles corfforaethol ac ar draws strwythurau partneriaethau eraill.

Bydd BGC Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot yn cyfarfod o leiaf ddwywaith yn ystod y deuddeng mis nesaf i fonitro cynnydd. Mae atebolrwydd am gyflawni cam nesaf y camau gweithredu wedi'i nodi mewn cynllun gweithredu y cytunwyd arno gan y ddau fwrdd.

Mae'r profiad hwn wedi annog y ddau fwrdd i ystyried prosiectau gyda chyfleoedd i weithio ar y cyd yn y dyfodol; yn benodol, mae atal hunanladdiad a hunan-niwed wedi'u nodi fel meysydd a fyddai'n elwa o sylw'r BGC ar draws y rhanbarth yn 2020/21.

Er mwyn ystyried orau sut mae ein hamcanion lles lleol yn effeithio ar amcanion lles lleol BGCau cyfagos a'n sefydliadau partner, y mae'r mwyafrif ohonynt yn gweithio'n rhanbarthol. Rydym wedi cymryd rhan mewn swm cynyddol o waith rhanbarthol, y mae llawer ohono wedi bod ar lefel cynllunio a chydlynu. Gwnaed peth o'r gweithgarwch gwerthfawr hwn yn bosib drwy adnoddau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru drwy grant cyllido rhanbarthol.



Tymor hir

Mae pob un o'r camau tymor byr a roddwyd ar waith gan bartneriaid y BGC dros y flwyddyn ddiwethaf yn cyfrannu at gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer 2040. Mae gan ein hamcanion lles lleol ffocws cryf ar y dyfodol ac maent yn gosod y cyd-destun ar gyfer gwneud penderfyniadau cyfredol. Bydd coed ifanc sydd wedi'u plannu ar y cyd gan bartneriaid BGC heddiw yn cefnogi cenedlaethau'r dyfodol ac yn rhoi mwynhad iddynt fel coed aeddfed.



Ataliaeth

Mae ymyrryd yn gynnar a gwerth ymagwedd ar draws asiantaethau yn cael ei ddangos gan allu'r prosiect Jig-so i nodi materion a helpu i atal problemau pellach yn y dyfodol. (Materion megis bod heb waith a thrais domestig yn ystod beichiogrwydd cyn i blentyn ddod i'r byd. Mae gwaith ataliol o'r fath yn lleihau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac yn cynyddu cyfleoedd bywyd pob aelod o'r teuluoedd ifanc sy'n cymryd rhan yn y rhaglen. Roedd gwerthusiadau'n dangos canlyniadau gwell i'r rhieni ifanc ac roedd cyfran fawr a atgyfeiriwyd i'r prosiect gan yr awdurdod lleol yn rhieni nad oeddent dan oruchwyliaeth y gwasanaethau cymdeithasol neu roeddent wedi'u tynnu oddi ar gofrestr 'mewn perygl'. Hefyd, roedd gwasanaeth Jig-so yn dangos gwell canlyniadau iechyd i rieni a phlant. Nododd rhieni hefyd eu bod yn teimlo'n fwy hyderus yn eu rôl fel rhieni.

Mae ffocws ar atal ac ymyrryd yn gynnar yn nodweddu'r holl waith a wneir gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn Abertawe. Mae aelodau'r cyd-bwyllgor wedi croesawu'r ymagwedd hon yn eu gwaith o fewn y sefydliad ac maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd cydweithredol a gynigir gan y BGC i ddatblygu dulliau gweithredu newydd.

Gweithio mewn partneriaeth ar ei orau yn ystod y cyfnod COVID-19

Ymateb partneriaid y BGC i COVID-19

Nid yw erioed wedi bod yn bwysicach i ni ddod ynghyd, cysylltu â'n gilydd a deall yr adnoddau sydd gennym yma yn Abertawe. Mae holl aelodau'r BGC wedi dangos parodrwydd i gydweithio er mwyn dod allan o'r sefyllfa hon yn gryfach, yn fwy gwydn ac wedi'u cysylltu'n well.

Mae cynnal cyfathrebu a chydberthnasau effeithiol wedi bod yn hanfodol. Mae wedi bod yn bwysig defnyddio'n perthnasoedd a'r rhwydweithiau a ddatblygwyd gennym dros y blynyddoedd diwethaf, a manteisio ar wybodaeth a phrofiad ein gilydd. Mae wedi bod yn hanfodol i'n holl sefydliadau gwahanol ddod at ei gilydd i helpu a chefnogi ei gilydd.

Mae aelodau/rhanddeiliaid y BGC yn gryfach gyda'i gilydd a rhaid inni beidio â cholli golwg ar faint y gallwn ei gyflawni pan fyddwn yn cydweithio ac yn cefnogi ein gilydd. Nid yw pobl Abertawe erioed wedi bod angen ein cefnogaeth gymaint ag y maent ei angen yn awr.

Mae arloesedd yn aml yn deillio o ymateb i argyfwng ac anhrefn. Staff yn cynhyrchu syniadau newydd i'n helpu ni i ennill y frwydr hon. Mae ein bywydau gwaith wedi'u chwyldroi. Mae galwadau cynhadledd rheolaidd gyda'r bwrdd iechyd lleol a phartneriaid rhanbarthol wedi dileu'r angen i deithio, a gweithio o bell yw'r normal newydd i lawer ohonom. Mae'r argyfwng presennol a'r angen am gadw pellter cymdeithasol a hunanynysu wedi gofyn am y newidiadau hyn ac rydym yn amau y bydd hyn yn dylanwadu ar ein ffyrdd o weithio yn y tymor hwy.

Dyma rai enghreifftiau o'r hyn y mae partneriaid wedi'i wneud yn ystod COVID-19;



- Pob safle ar gau (canolfannau ymwelwyr, caffis, meysydd parcio, mannau chwarae a thoiledau).
- Hyrwyddo gwybodaeth yn dilyn canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gadw pellter cymdeithasol /aros mewn cysylltiad agos ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a bydd yn adolygu gweithdrefnau'n ddyddiol er mwyn cadw staff, contractwyr, cwsmeriaid a phartneriaid yn ddiogel.
- Staff yn gweithio gartref, dim ond gweithwyr allweddol sy'n gwneud gwaith hanfodol.
- Parhau i ymgynghori ar geisiadau am hawlenni; nid oedd modd derbyn ceisiadau ar bapur.
- Parhau gyda chynaeafu cynlluniedig i gynorthwyo cyflenwad o gynhyrchion pren.

- Gwybodaeth a rennir mewn perthynas â chael mynediad i dir a hawliau tramwy (cyngori i ymweld â gwefannau perthnasol Awdurdod y Parc Cenedlaethol neu'r awdurdod lleol).
- Gosod arwyddion ar safleoedd i hysbysu aelodau o'r cyhoedd am y safleoedd sydd ar gau.
- Gweithio gyda gweithredwyr i ddod o hyd i'r atebion gorau i ddiogelu'r amgylchedd ac i helpu busnesau i addasu yn yr amgylchiadau heriol hyn.
- Darparu adnoddau a gweithgareddau dysgu ar-lein i'w gwneud wrth i'r ysgolion fod ar gau.
- Penderfyniad i lacio'r rheolau presennol ar gyfer taenu llaeth gwastraff ar dir amaethyddol.
- Helpu i gynnal gwasanaethau hanfodol yn y sectorau iechyd, bwyd ac ynni.
- Cyfathrebu drwy gyfryngau cymdeithasol (cyfrifon Twitter a Facebook).
- Gweithio gyda phartneriaid i lunio canllawiau i reolwyr safleoedd diwylliannol naturiol ac awyr agored. Bydd hyn yn helpu gyda pharatoadau i agor a gweithredu safleoedd mor ddiogel â phosib pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyngori ei bod yn ddiogel gwneud hynny.



Gwasanaeth Tân Ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

- Cysylltiadau diweddaraf i gael gwybodaeth o ffynonellau amrywiol.
- Mae'r tîm digwyddiadau tyngedfennol wedi'i sefydlu ac mae'n cwrdd bob dydd.
- Nid yw swyddogion diogelwch yn cynnal ymweliadau arferol ond byddant yn mynd ar drywydd cwynion ac archwiliadau diogelwch bywyd brys eraill.
- Bydd gan swyddogion PPE ar gyfer ymweliadau brys.
- Gweithio hyd eithaf ein gallu wrth weithredu ar y rheng flaen er mwyn ymateb i'r sefyllfa.
- Cwtogi ar rywfaint o waith rhagweithiol.
- Gwybodaeth/cyngor cyffredinol.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Bae Abertawe
Swansea Bay University
Health Board

- Diweddarau cysylltiadau, datganiadau a gwybodaeth ddefnyddiol yn rheolaidd (cysylltiadau ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gadw pellter cymdeithasol a gwarchod, Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Iechyd).

- Diweddariadau ar y clinigau cleifion allanol a ohiriwyd a'r rhai sy'n dal i redeg e.e. pediatreg, oncoleg.
- Stopio pob ymweliad ysbyty cyffredinol.
- Llai o ofal cyn geni.
- Uned argyfwng plant wedi'i chreu mewn lleoliad newydd.
- Canolfan ddiagnostig gyflym wedi'i hatal dros dro.
- Rhybudd o newyddion ffug - ffeithiau am ysbytai maes a pharatoi ar gyfer COVID-19 ar draws pob ysbyty.
- Gwybodaeth am ymweld â meddyg teulu y tu allan i oriau, gweithredoedd twyllodrus, rhoddion rhestr ddymuniadau Amazon, llythyrau cysgodi.
- Canllawiau teithio hanfodol.
- Gwybodaeth am brofion.



- Blaenoriaethu gwasanaethau hanfodol fel sbwriel, gwasanaethau cymdeithasol, gofal cartref ac atgyweiriadau brys i'r cartref yn wyneb pwysau enfawr.
- Ailhyfforddi ac ailgyfeirio staff i'r ganolfan gyswllt i gefnogi'r diamddiffyn. Canolfan alwadau newydd sy'n darparu cymorth ymarferol i'r rhai mwyaf diamddiffyn, gan gynnwys y rheini y gofynnir iddynt hunanynysu am hyd at 12 wythnos. Staff yn newid o'u rolau arferol i roi cymorth i gymunedau lleol a'r rheini sy'n ddiamddiffyn.
- Newid canolfannau hamdden yn ysbytai dros dro.
- Rhedeg banciau bwyd a darparu prydau bwyd i'r rheini sydd mewn angen. Trefnu danfoniadau bwyd i gartrefi'r rheini sy'n ddiamddiffyn a dosbarthu prydau ysgol am ddim ar draws y ddinas pan na fydd ysgolion ar agor.
- Creu tasglu cymunedol i helpu i ddiwallu anghenion y rheini na allant adael eu cartrefi.
- Gweithredu canolfannau gofal plant mewn ysgolion i ddarparu gofal plant i weithwyr allweddol sy'n cadw'r GIG a gwasanaethau hanfodol eraill i fynd a sefydlu rhwydwaith dosbarthu gyda'n partneriaid i sicrhau bod pobl ddiamddiffyn a'r rheini sy'n byw mewn tloedi yn cael cymorth.
- Creu stwnshnod newydd ar draws pob llwyfan cyfathrebu #Yma!Abertawe, gan grynhoi eu hagwedd yn berffaith. Cadw cysylltiadau'n fyw a darparu ffyrdd newydd i ni ddod at ein gilydd, i rannu a chydweithio.
- Wedi rhoi'r gorau i adeiladu tai cyngor a bellach yn adeiladu ysbytai.
- Gofyn am wirfoddolwyr yn y gymuned i helpu yn ystod eu hamser sbâr.
- Anfon llythyr drwy Aelodau'r BGC ynghylch y newidiadau angenrheidiol a wneir i ddarpariaeth gofal cymdeithasol ar draws Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot er mwyn helpu i ymdopi â'r argyfwng Coronafeirws.

- Sefydlu rhwydwaith dosbarthu gyda'n partneriaid i sicrhau bod pobl ddiamddiffyn a'r rheini sy'n byw mewn tloedi yn cael cymorth.
- Cymorth penodol i'r digartref. Mae pobl ddigartref, y rheini sy'n cysgu ar y stryd a'r rheini sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref yn Abertawe yn cael eu cynorthwyo'n fwy nag erioed yn ystod pandemig Coronafeirws.
- Anogir pobl i gofrestru ac ymuno â byddin o wirfoddolwyr sy'n gwneud gwahaniaeth mawr i'r rheini y mae Coronafeirws yn effeithio arnynt drwy weithio gyda Chyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe (CGGA) sy'n cydlynu'r ymgyrch recriwtio gwirfoddoli yn lleol. Mae byddin o fwy na 1,600 o wirfoddolwyr cymunedol bellach yn helpu pobl ddiamddiffyn ac ar eu pennau eu hunain ar draws Abertawe. Mae'r rhwydwaith wedi'i lunio gan Gydlynwyr Ardaloedd Lleol mewn ymateb i bandemig y Coronafeirws.
- Mae Prif Swyddog Meddygol Cymru wedi ysgrifennu at filoedd o bobl a'u gofalwyr yn Abertawe yn dweud wrthynt am gymryd camau gwarchod ychwanegol i ddiogelu eu hiechyd, gan gynnwys hunanynsu am o leiaf dri mis.
- Gweithiwyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i roi cymorth i'r unigolion hyn, fel y bydd y cyngor a'i bartneriaid yn helpu os nad oes ganddynt gyfeillion neu deulu, neu rwydweithiau cymorth eraill i'w helpu i gael bwyd neu hanfodion eraill o ganlyniad.
- **Gwasanaethau cam-drin domestig** - Mae Canolfan Cam-drin Domestig a phrosiect IDVA Cyngor Abertawe yn parhau i weithredu, gan roi cyngor ar ddiogelwch a chymorth emosiynol i'r rheini sydd mewn perygl ar hyn o bryd.
- Mae llawer o wybodaeth am rwydweithiau cefnogi ar gael ar wefan y cyngor yn www.abertawe.gov.uk/CymorthCoronafeirws .
- Gweithiwyd gyda chontractwyr i drawsnewid hen ffatri a stiwdios ffilm yn ysbyty i helpu i reoli'r cynnydd disgwylidig mewn achosion o'r Coronafeirws.
- Mae'r cyngor a'i bartneriaid yn y Groes Goch Brydeinig wedi lansio apêl i fusnesau lleol am welyau sy'n plygu, dillad gwely a chyflenwadau rheolaidd eraill sydd eu hangen weithiau mewn argyfwng.
- **Podlediad cymunedol newydd** - Mae gan gymuned ddiwylliannol Abertawe bodlediad newydd. Come Together Cast, sy'n cael ei oruchwylio gan Gyngor Abertawe a Hwb Cerdd Abertawe. Ei nod yw amlygu gwaith arloesol ar draws y ddinas, rhannu syniadau ar gyfer cynnal lles a difyrru preswylwyr yn ystod y cyfnod ynysu parhaus.
- Rhagor o welyau gofal cymdeithasol i helpu i leddfu'r pwysau ar y GIG. Diolch yn fawr i Housing Justice Cymru, y tîm sy'n rhedeg lloches nos Abertawe. Maent wedi benthyca 20 o welyau a matresi i'r cyngor rhag ofn y bydd eu hangen i greu canolfan orffwys mewn argyfwng nad yw'n ymwneud â Coronafeirws, fel tân mawr neu ymgiliad.
- Gwasanaethau iechyd hanfodol yn elwa o'r PPE a gynhyrchwyd mewn ysgolion - Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r GIG yn elwa o ymdrechion ysgolion cyfun y ddinas sydd wedi cynhyrchu 20,000 eitem o offer PPE yn ystod y cyfyngiadau symud.
- Gwasanaethau Dechrau'n Deg yma o hyd i blant - Mae help, cyngor a chefnogaeth i deuluoedd o fewn rhaglen Dechrau'n Deg Abertawe'n parhau er gwaethaf cyfyngiadau symud Coronafeirws. Er bod yr holl grwpiau ac

ymweliadau nad ydynt yn hanfodol wedi dod i ben yn ystod y cyfyngiadau symud, mae'r timau'n darparu gwasanaethau mewn ffyrdd amgen.

- Mae Info-nation, (gwasanaeth i bobl ifanc), yn cynnal ymgyrch #ArosMewnCysylltiad ar gyfer pobl ifanc yn ystod y pandemig Coronafeirws.
- Mae'r tîm gwasanaethau diwylliannol wedi creu rhestr chwarae ar YouTube o ffilmiau byr i sicrhau bod unigolion yn cael eu diddanu a'u hysbysu. Maent yn cynnwys fideos a roddwyd at ei gilydd gan y cyngor, partneriaid ac eraill sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gael effaith gadarnhaol.
- Prosiect Profi, Olrhain, Diogelu - dan arweiniad cydweithwyr ieuchyd, bydd y strategaeth genedlaethol hon yn seiliedig ar olion traed byrddau ieuchyd a bydd yn adeiladu ar ein cydweithrediad rhanbarthol rhagorol â Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Chyngor Castell-nedd Port Talbot. Bydd y prosiect yn cael ei arwain gan ein tîm ieuchyd amgylcheddol ac arweinwyr clinigol y GIG.



**South Wales
Police**

- Pennawd : Aros Gartref, Amddiffyn y GIG ac Achub Bywydau.
- Neges gan y Prif Gwnstabl Matt Jukes i gymunedau De Cymru <https://www.south-wales.police.uk/en/newsroom/coronavirus-a-message-from-chief-constable-matt-jukes-to-the-communities-of-south-wales/>
- Cyngor ar osgoi gweithredoedd twyllodrus.
- Gwybodaeth a ddiweddarir yn rheolaidd iawn parthed: cadw pellter cymdeithasol, cam-drin domestig, sgamiau, lefel uchel o ryngweithio cyhoeddus. Darparu dolenni defnyddiol i wybodaeth partneriaid eraill.
- Parhau i fod yn weladwy yn ein cymunedau lleol, gan gadw at y mesurau cadw pellter cymdeithasol pan fyddwn yn ymgysylltu â phreswylwyr yn unol â chyngor y Llywodraeth o ran cadw pellter cymdeithasol.
- Cymryd camau gorfodi priodol os oes unrhyw amodau'n cael eu torri.



- Rhannu'r cyngor a'r canllawiau diweddaraf gan Lywodraeth Cymru , Iechyd Cyhoeddus Cymru, Heddlu De Cymru a phartneriaid awdurdodau lleol.

- Cais i'r cyhoedd gyflwyno cwestiynau am effeithiau posib COVID-19 ar blismona yn ne Cymru, i'r Comisiynydd eu cyflwyno i'r Prif Gwnstabl ar Fwrdd Strategol y Comisiynwyr - trawsgrifiad o'r atebion i'w gyhoeddi ar y wefan.
- Darparu negeseuon cyson ar draws cymunedau De Cymru gyda chrynodeb clir, syml o'r rheolau sydd ar gael mewn taflen ac ar wefan Heddlu De Cymru.
- Neges fideo i gymunedau De Cymru parthed: cadw pellter cymdeithasol <http://www.southwalescommissioner.org.uk/en/news/a-message-to-the-communities-of-south-wales-from-police-crime-commissioner-rt-hon-alun-michael/>
- Gwybodaeth a chyingor parthed: cam-drin domestig, amddiffyn plant, cymorth i ddiodefyr, gweithredoedd twyllodrus - rhannu dolenni gwybodaeth gyswllt, rhifau ffôn defnyddiol, ffyrdd o gysylltu â'r Comisiynydd.
- Ni allwn ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu wyneb yn wyneb mwyach megis ymweld â chymunedau neu ddiwyddiadau cymunedol.
- Gofyn i blant a phobl ifanc greu negeseuon COVID-19 sy'n bwysig iddynt.

Yng ngeiriau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd - "Rydym yn cyflawni mwy gyda'n gilydd nag yr ydym yn ei gyflawni ar ein pennau ein hunain ac rwy'n cael fy nghalonogi gan yr ymdrech ar y cyd sy'n amlwg ar draws ein cymunedau, gyda'r cyhoedd, yr heddlu a'n partneriaid ar draws De Cymru i gyd yn mynd cam ymhellach i helpu i fynd i'r afael â'r feirws hwn a diogelu'n cymunedau."



- Grwpiau newydd sy'n cael eu sefydlu ar draws Abertawe yn helpu'r rheini sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol, yn trefnu danfoniadau bwyd, yn casglu presgripsiynau, ac yn diwallu anghenion nas diwallwyd y rheini y mae gwir angen help arnynt ar hyn o bryd.
- Mapio'r holl wahanol wasanaethau sydd ar gael ledled Abertawe yn lleol, gan helpu i uno'r cymorth presennol, sicrhau bod yr offer ar gael i'ch diogelu, a sicrhau bod y rhwydwaith gwych yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau.
- Rhannu'r tîm yn 5 ardal ddaearyddol, cael un person allweddol fel pwynt cyswllt, a gallant gysylltu â phethau eraill sy'n digwydd yn lleol - gan ddefnyddio ffiniau 'clwstwr' meddygon teulu i helpu i gydgysylltu'r gwaith hwn (gweler y map) gyda chysylltiadau allweddol a thîm ar gyfer pob ardal.
- Cael 'rhestr bostio Coronafeirws' - mae hon ar gyfer diweddariadau i grwpiau mwy ffurfiol y trydydd sector.
- Canllawiau ar gyfer banciau bwyd/cyflenwyr bwyd.
- Canslwyd yr holl hyfforddiant wyneb yn wyneb hyd at 31 Gorffennaf 2020 (i'w adolygu wrth i'r sefyllfa fynd yn ei blaen), ond byddwn yn defnyddio'r rhestr ddisbarthu e-fwletin (ynghyd â'r rhestr bostio Coronafeirws newydd) i sicrhau bod gan bobl yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt ar yr adeg heriol hon.

- Darparwyd dolenni i'r newyddion diweddaraf.



- Pennawd clir ar y wefan – COVID-19 - sut maent yn ymateb.
- Cyfyngu dyletswyddau gofalu i reoli gwastraff ac atgyweirio a chynnal gwaith hanfodol yn unig.
- Parhau gyda gwaith gwasanaethu nwy cyhyd ag y bo modd.
- Cefnogi pobl sy'n wynebu caledi ariannol.
- Cyfyngu gosodiadau tai newydd i'r rheini sy'n cael eu gosod ar hyn o bryd.
- Prosesu taliadau rhent ar-lein a thros y ffôn.
- Gwybodaeth/cyngor cyffredinol ynghylch gweithredoedd twyllodrus, iechyd meddwl, busnesau, ceiswyr lloches/ffoaduriaid, cwmnïau lleol sy'n dosbarthu bwyd, cymorth i fenywod.
- Rhannu gwybodaeth.



- Dolenni i'r cyngor diweddaraf gan lechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid eraill.
- Newidiadau i'r ffordd y caiff apwyntiadau eu cynnal.
- Mae'r holl waith grŵp a'r rhaglenni gwaith grŵp wedi dod i ben am y tro.

Ein Camau Nesaf

Mae cryfderau BGC Abertawe o fewn arbenigedd, profiad a brwdfrydedd ei bartneriaid, o staff rheng flaen sy'n gweithio i gyflawni'r amcanion lles lleol i'r cynrychiolwyr arweinyddiaeth sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella lles Abertawe yn strategol.

Bydd caledi ac ansicrwydd parhaus yn parhau i fod yn her i'n sefydliadau wrth symud ymlaen. Fodd bynnag, nodwyd cyfleoedd sylweddol i feithrin ein gallu drwy gydweithio a rhannu asedau ac adnoddau yn gynyddol. Yn benodol, bydd y buddion a ddaw yn sgîl rhagor o weithio rhanbarthol, gwell cyfathrebu sy'n galluogi rhagor o gyfranogiad gan randdeiliaid ehangach a chysylltiadau cliriach â phartneriaethau eraill, megis Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg, yn ganolbwynt ar gyfer y dyfodol.

Sut gallwch gymryd rhan?

Mae'r gwaith a wneir gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe wedi'i gyhoeddi ar-lein yn www.abertawe.gov.uk/bgc.

Cynhelir cyfarfodydd ein cyd-bwyllgor yn gyhoeddus a gwahoddir cwestiynau gan y cyhoedd drwy eitem agenda sefydlog sef Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Cynhelir cyfarfod fforwm partneriaeth bob 6 mis a chroesawn bawb i ddod iddo i gyfrannu.

Gallwch hefyd gysylltu'n uniongyrchol â Chydlynnydd y BGC drwy e-bost ar Swansea.psb@swansea.gov.uk neu ffoniwch 07989 138917.

Rydym yn croesawu'ch cyfranogaeth, eich syniadau a'ch awgrymiadau ym mhob agwedd ar ein gwaith fel y gallem ystyried y rhain ar gyfer ein gwaith yn y dyfodol.

